

# Partneriaeth Ddysgu 14-19 Sir y Fflint

## *Achos Amlinellol Strategol*

Wedi'i baratoi gan:

Phil Smart	-	Uwch Ymgynghorydd CPC
Darren Bugg	-	Prif Ymgynghorydd CPC

Fersiwn:	3.0
Dyddiad Cyhoeddi:	30 <sup>ain</sup> Gorffennaf 2010

## Rhagair

Defnyddiwyd y fformat a'r safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer achosion busnes wrth baratoi'r Achos Amlinellol Strategol hwn, fel y nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Thrysorlys EM. Y fformat a gymeradwywyd yw'r Model Pum Achos a nodir prif elfennau'r model hwnnw isod:

- yr **achos strategol**. Mae'r adran hon yn nodi'r cyd-destun strategol a'r achos dros newid, ynghyd â'r amcanion buddsoddi sy'n sail i'r cynllun
- yr **achos economaidd**. Mae'r adran hon yn dangos bod y sefydliad wedi dewis ei hoff ffordd o safbwynt symud ymlaen, sy'n diwallu anghenion y gwasanaeth yn awr ac yn y dyfodol orau ac sy'n debygol o sicrhau'r gwerth gorau am arian
- yr **achos masnachol**. Dyma'r adran sy'n disgrifio tebyg i beth fyddai cynnig posibl
- yr **achos ariannol**. Yma amlygir materion sy'n debygol o godi yng nghyswllt cyllid a fforddiadwyedd a'r ffordd y gellid ymdrin â mantolen y cynllun
- yr **achos rheoli**. Yma y dangosir bod modd cyflawni'r cynllun ac y gellir ei gyflwyno'n llwyddiannus yn unol ag arferion gorau cydnabyddedig.

Cyflwynwyd yr Achos Amlinellol Strategol hwn i arweinwyr ysgolion a cholegau yn Sir y Fflint, i Fwrdd y Rhaglen Ôl-16 ac i aelodau etholedig. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn unfrydol o blaid cyflwyno'r achos i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

# Rheoli Fersiynau

CPC Ltd sy'n gyfrifol am reoli fersiynau'r ddogfen Achos Amlinellol Strategol hwn ar ran Cyngor Sir y Fflint.

## SICRHAU ANSAWDD

Fersiwn	Dyddiad adolygu	Adolygwyd gan	Swydd
Drafft 2.1	11.07.10	Bob Lamb	Cyfarwyddwr Rhaglen CPC

## HANES Y FERSIYNAU

Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb byr o'r Newid	Enw'r Perchennog
Drafft 0.1	30.06.10	Fersiwn Drafft Cyntaf	Phil Smart
Drafft 1.1	02.07.10	Ail Fersiwn Drafft	Ian Budd
Drafft 1.2	05.07.10	Diweddariadau yn dilyn bwrdd y rhaglen ôl-16	Phil Smart
Drafft 2.1	06.07.10	Diweddariadau yn dilyn bwrdd y rhaglen ôl-16	Tom Davies
Drafft 2.2	15.07.10	Diweddarwyd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a chyfarfod Sicrhau Answdd mewnol	Phil Smart
Drafft 2.3	21.07.10	Diweddarwyd er mwyn cynnwys crynodeb gweithredol	Phil Smart
Drafft 3.0	30.07.10	Newidiadau terfynol	Phil Smart

# Cynnwys

<b>1.0</b>	<b>CRYNODEB GWEITHREDOL .....</b>	<b>8</b>
1.1	Cyflwyniad.....	8
1.2	Yr Achos Strategol.....	8
1.2.1	Y cyd-destun strategol.....	8
1.2.2	Yr achos dros newid.....	8
1.3	Yr Achos Economaidd.....	12
1.3.1	Y rhestr hir.....	12
1.3.2	Y rhestr fer.....	12
1.3.3	Costau dangosol.....	13
1.4	Yr Achos Masnachol.....	24
1.4.1	Strategaeth gaffael.....	24
1.4.2	Gwasanaethau – y gofynion.....	25
1.4.3	Y posibilïadau o safbwynt trosglwyddo risg a dulliau talu posibl.....	25
1.5	Yr Achos Ariannol.....	26
1.5.1	Crynodeb o'r gwerthusiad ariannol.....	26
1.6	Yr Achos Rheoli.....	26
1.6.1	Trefniadau ar gyfer rheoli prosiectau.....	27
1.7	Argymhelliad.....	27
<b>2.0</b>	<b>YR ACHOS STRATEGOL.....</b>	<b>28</b>
2.1	Cyflwyniad.....	28
2.2	Y Cyd-destun Cenedlaethol a sut y rhoddir ef ar waith yn Sir y Fflint.....	28
2.3	Rhan A: Y cyd-destun strategol.....	30
2.3.1	Nodau ac Amcanion Strategol.....	30
2.3.2	Trosolwg o'r drefn.....	31
2.3.3	Gweithgareddau presennol a rhanddeiliaid y gwasanaeth.....	32
2.3.4	Rhanddeiliaid.....	34
2.4	Strategaethau busnes.....	35
2.4.1	Y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol a chyswllt â chynigion presennol y rhaglen trawsnewid.....	35
2.4.2	Strategaeth Buddsoddi mewn Ysgolion.....	36
2.4.3	TGCh.....	36
2.4.4	Ysgolion Bro.....	37
2.4.5	Darpariaeth cyfrwng Cymraeg.....	38
2.4.6	Darpariaeth Ffydd.....	38
2.4.7	Adfywio a Datblygu Economaidd.....	39
2.4.8	Cynllun Gofodol.....	40
2.5	Rhan B: Yr achos dros newid.....	40
2.6	Amcanion buddsoddi:.....	42
2.7	Y Trefniadau Presennol.....	46
2.7.1	Niferoedd staff.....	46

2.7.2	Nifer y disgyblion.....	46
2.7.3	Lleoedd gwag .....	48
2.8	Anghenion busnes.....	49
2.9	Cwmpas busnes posibl a gofynion gwasanaeth allweddol.....	49
2.10	Prif feini prawf o safbwynt buddion .....	51
2.11	Prif risgiau .....	53
2.12	Cyfyngiadau.....	55
2.13	Dibyniaethau .....	55
<b>3.0</b>	<b>YR ACHOS ECONOMAIDD.....</b>	<b>57</b>
3.1	Cyflwyniad.....	57
3.2	Ffactorau llwyddiant allweddol .....	57
3.3	Opsiynau - y rhestr hir.....	58
3.3.1	Y Gogledd .....	58
3.3.2	Y De .....	58
3.3.3	Opsiynau cwmpasu – y dewisiadau o ran cynnwys (beth) .....	59
3.3.4	Yr opsiynau o safbwynt atebion gwasanaeth – y dewisiadau o ran atebion (sut) .....	59
3.3.5	Yr opsiynau o safbwynt cyflwyno’r gwasanaeth – y dewisiadau o ran cyflwyno (pwy) .....	59
3.3.6	Opsiynau gweithredu – y dewisiadau o ran yr amserlen gyflawni .....	59
3.3.7	Opsiynau cyllido – y dewisiadau o ran cyllido.....	59
3.4	Opsiynau Cwmpasu.....	59
3.4.1	Opsiwn 1: Y Gogledd (gwneud y lleiaf posibl).....	60
3.4.2	Opsiwn 2: Y Gogledd – Crynhoi’r ddarpariaeth ôl-16 ar Gampws Cei Connah, gyda pheth ad-drefnu mewn manau eraill .....	60
3.4.3	Opsiwn 3: Y Gogledd – Trefnu’r ddarpariaeth ôl-16 a chydweithio ar sail y Gogledd Orllewin (Treffynnon, Y Flint a St Richard Gwyn) a’r Gogledd Ddwyrain (John Summers, Cei Connah, Dewi Sant). .....	61
3.4.4	Opsiwn 4: Y Gogledd – Ail-gategoreiddio’r ysgolion i gyd i fod yn ddarparwr ar gyfer disgyblion 11-16 oed a chael un darparwr ôl-16 sy’n cael ei lywodraethu’n annibynnol. .....	62
3.4.5	Opsiwn 5: Y D - Gwneud y lleiaf posibl.....	62
3.4.6	Opsiwn 6: Y De - Cydweithio rhwng Castell Alun a Phenarlâg, ac Ysgol Alun, Yr Wyddgrug, Ysgol Uwchradd Elfed ac Ysgol Uwchradd Argoed .....	63
3.4.7	Opsiwn 7: Cyfrwng Cymraeg – Gwneud dim .....	63
3.4.8	Opsiwn 8: Cyfrwng Cymraeg – Cydweithio ar lefel ranbarthol ac is-ranbarthol ...	64
3.4.9	Casgliad cyffredinol: Opsiynau Cwmpasu .....	65
3.4.10	Opsiynau Cwmpasu - casgliadau .....	67
3.5	Yr opsiynau – atebion gwasanaeth .....	67
3.5.1	Casgliad cyffredinol: Yr opsiynau – atebion gwasanaeth.....	68
3.6	Yr opsiynau - Cyflwyno Gwasanaeth.....	69
3.6.1	Cyflwyniad.....	69
3.7	Gweithredu – yr opsiynau.....	71
3.7.1	Cyflwyniad.....	71
3.7.2	Casgliad cyffredinol: opsiynau gweithredu .....	73
3.8	Opsiynau cyllido .....	73

3.9	Y rhestr hir: pethau sydd wedi'u cynnwys a phethau sydd heb eu cynnwys 74	
3.10	Opsiynau - rhestr fer .....	75
3.10.1	Trosolwg.....	75
<b>4.0</b>	<b>YR ACHOS MASNACHOL.....</b>	<b>78</b>
4.1	Cyflwyniad.....	78
4.2	Gwasanaethau – y gofynion.....	78
4.3	Y posibilrwydd o drosglwyddo risg .....	78
4.4	Dulliau codi tâl arfaethedig.....	79
4.5	Hyd y contractau .....	79
4.6	Cymalau contractol allweddol arfaethedig.....	79
4.7	Goblygiadau o ran personél (gan gynnwys TUPE) .....	79
4.8	Strategaeth gaffael ac amserlen gweithredu .....	79
4.9	Dull cyfrifyddu FRS 5 .....	79
<b>5.0</b>	<b>YR ACHOS ARIANNOL.....</b>	<b>80</b>
5.1	Cyflwyniad.....	80
5.2	Fforddiadwyedd cyffredinol.....	80
5.3	Effaith ar Gyfrif Gwariant ac Incwm y Sefydliad .....	80
5.4	Effaith ar y fantolen .....	80
5.5	Cefnogaeth gan Randdeiliaid .....	80
<b>6.0</b>	<b>YR ACHOS RHEOLI.....</b>	<b>81</b>
6.1	Cyflwyniad.....	81
6.2	Trefniadau ar gyfer rheoli'r rhaglen.....	81
6.3	Trefniadau ar gyfer rheoli'r prosiect.....	83
6.3.1	Strwythur ar gyfer adrodd ar y prosiect.....	83
6.3.2	Swyddogaethau a chyfrifoldebau'r prosiect .....	83
6.3.3	Cynllun y prosiect.....	84
6.4	Defnyddio cynghorwyr arbennig .....	84

## Tablau

Tabl 1-1: Amcanion buddsoddi, sefyllfa gyfredol, angen busnes.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 1-2: Rhannu Risg .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-1: Rhanddeiliad a darparwyr allweddol.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-2: Targedau, mesurau ac amcanion buddsoddi .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-3: Amcanion buddsoddi, y sefyllfa bresennol a'r angen busnes ....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-4: Nifer y staff yn y deuddeg ysgol uwchradd 2009 .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-5: Nifer y disgyblion yn y deuddeg ysgol uwchradd .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-6: Lleoedd gwag ym mis Medi 2009 .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-7: Problemau gyda'r trefniadau presennol .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-8: Cwmpas a gofynion addysgol .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-9: Gofynion gwasanaeth.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-10: Meini prawf budd ac amcanion buddsoddi.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 2-11: Risgiau a gwrth-fesurau.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 3-1: Asesiad cryno o'r opsiynau cwmpasu.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 3-2: Asesiad cryno o'r opsiynau – atebion gwasanaeth .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 3-3: Asesiad cryno o'r opsiynau – cyflwyno'r gwasanaeth.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 3-4: Asesiad cryno o'r opsiynau gweithredu .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 3-5: Opsiynau – y rhestr hir .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 3-6: Opsiynau – canlyniadau refenir a chyfalaf .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 3-7: Tybiaethau o ran arbedion cost refeniw .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 4-1: Dyrannu risg .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 6-1: Aelodau Bwrdd y Rhaglen Ôl-16.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Tabl 6-2: Gweithgareddau carreg filltir .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

## Ffigurau

Ffigur 1: Ysgolion Uwchradd yn Sir y Fflint .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
---	-------------------------------------

## 1.0 Crynodeb Gweithredol

### 1.1 Cyflwyniad

Mae'r Achos Amlinellol Strategol hwn yn ceisio sêl bendith i ail-lunio'r ddarpariaeth ôl-16 ar draws Sir y Fflint. Mae'r achos busnes hwn yn nodi'r problemau presennol o ran y ddarpariaeth a'r strategaeth a fabwysiadwyd i'w goresgyn. Mae'n dangos yn glir mai cydweithio yw'r ffordd ymlaen a ffafrir o ran datrys y problemau hyn. Mae'n amlwg fod partneriaid yn sylweddoli bod angen sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy gydweithio ac ad-drefnu ac y llunnir manylion llawn yr opsiynau ar y cam Achos Busnes Amlinellol. Mae Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir y Fflint wedi cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol yn ei gyfarfod ar ddydd Mawrth 13<sup>eg</sup> Gorffennaf 2010.

### 1.2 Yr Achos Strategol

#### 1.2.1 Y cyd-destun strategol

Nid yw'r Achos Amlinellol Strategol hwn, a'r cynigion sydd ynddo, ond yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i addysg ôl-16 yn Sir y Fflint, fel y'u lluniwyd gan y Rhwydwaith 14-19; nid yw'n cynnwys llawer o fanylion am y buddsoddiad cyfalaf sy'n digwydd yn y sir ac mewn cynghorau cyfagos, ac eithrio er mwyn amlygu maint y newid ac i ddangos lle y gellir meithrin cysylltiadau.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn parhau i weithredu ei raglen ehangach o gael gwared â lleoedd gwag a moderneiddio ysgolion yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Ceir manylion llawn yn y strategaeth buddsoddi mewn ysgolion yn Atodiad A.

#### 1.2.2 Yr achos dros newid

Cydnabuwyd, er bod tystiolaeth o gydweithio llwyddiannus rhwng rhai ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint, mae angen ailedrych ar y ddarpariaeth addysg ôl-16 i sicrhau model cyflenwi effeithiol sy'n gynaliadwy ac sy'n gwella canlyniadau'n gyffredinol. Dyma rai o fuddion penodol rhaglen trawsnewid:

- gwella lefelau cyflawniad pob dysgwr, gan gynnwys rhai o grwpiau agored i niwed;
- darparu dewis ehangach, cyfoethocach a mwy hyblyg o lwybrau dysgu er mwyn annog ymwneud ehangach;
- hyrwyddo dysgu fel proses gydol oes a chwalu'r rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag manteisio ar gyfleoedd dysgu;



- datblygu dysgwyr annibynnol, hyderus ac effeithiol sy'n mwynhau ymdeimlad cadarnhaol o les sy'n eu galluogi i rannu eu dysgu ag eraill ac i gyfrannu at eu cymuned a'u cymdeithas;
- darparu amgylcheddau dysgu priodol trwy ddatblygu safleoedd;
- hybu'r cysyniad o "ysgolion bro" fel strategaeth i wella dysgu a chydlyniant cymdeithasol;
- sicrhau ymrwymiad rhieni/gofalwyr fel addysgwyr cyntaf a chyd-addysgwyr eu plant;
- hyrwyddo cydweithrediad rhwng gwasanaethau, canolfannau dysgu ac ysgolion er mwyn creu diwylliant o rannu cyfrifoldeb am gynnydd pob dysgwr;
- darparu llwybrau dysgu effeithiol ac effeithlon drwy leihau lleoedd gwag mewn dosbarthiadau;
- cyflenwi gwasanaethau mewn modd effeithlon drwy leihau costau cynnal a chadw;
- ystyried daearyddiaeth Sir y Fflint a darparu lleoliadau priodol;
- cynorthwyo a datblygu pob ymarferwr yn ei ymdrechion i wella cyflawniad pob dysgwr; a
- sicrhau bod digon o ddarpariaeth o safon uchel ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac ar gyfer cymunedau ffydd.

Fel y dangosir yn yr achos economaidd, er bod y trefniadau presennol ar gyfer addysg ôl-16 wedi hen ennill eu plwy ac o ansawdd uchel, nid ydynt yn bodloni targedau cwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru nac anghenion dysgwyr yn y dyfodol.

**Tabl 1-1: Amcanion buddsoddi, sefyllfa gyfredol, angen busnes**

Amcan Buddsoddi	Sefyllfa Gyfredol	Angen Busnes
1 Gwella safon yr addysg ôl-16 a ddarperir ar hyn o bryd yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint, wedi'i fesur yn ôl canlyniadau disgyblion ac adroddiadau arolygu Estyn.	Yng nghyswllt dysgwyr 17 oed sydd ar gofrestrau ysgolion Sir y Fflint ym mis Ionawr 2009: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ilwyddodd 96% o ddysgwyr Sir y Fflint i gyrraedd y trothwy Lefel 3, o'i gymharu â 96% ar draws Cymru</li> <li>• Y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach ar gyfer dysgwyr Sir y Fflint oedd 615, o'i gymharu â 688 ar draws Cymru</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella perfformiad dysgwyr Sir y Fflint er mwyn iddo fod cystal neu'n well na pherfformiad Cymru</li> <li>• Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu dewis o'r amrywiaeth ehangaf posibl o gyrсияu, ar y lefel briodol, a bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau.</li> <li>• Arolygiadau ardal a sefydliadau unigol ym maes darpariaeth 14-19 i gael sgôr un ai da neu ardderchog gan Estyn ym mhob achos</li> </ul>
2 Sicrhau bod cyfran gynyddol o unigolion ag anghenion arbennig (addysgol neu anabled) ac unigolion o deuluoedd agored i niwed yn manteisio ar addysg ôl-16.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darpariaeth ôl-16 mewn Ysgol Arbennig newydd yn ei blwyddyn weithredol gyntaf</li> <li>• Mae gan Goleg Glannau Dyfrdwy (yn y ddau safle) amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgwyr ar gyrсияu Lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2, yn ogystal â Lefel 3.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ehangu'r hyn sydd ar gael yn y cwricwlwm i ddiwallu anghenion pob dysgwr</li> <li>• Sicrhau bod yr hyn mae'r cwricwlwm yn ei gynnig yn briodol o safbwynt lefel yn ogystal â lled</li> <li>• Mwy o weithio mewn partneriaeth a datblygu Annog Dysgu, Cymorth Personol ac Arweiniad a Chyngor Gyrfa annibynnol er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr gwell gwybodaeth am gyfleoedd.</li> </ul>
3 Sicrhau y cyflwynir darpariaeth addysgol berthnasol mewn modd sy'n bodloni anghenion lles ehangach ein pobl ifanc, eu rhieni / gofawyr a'n cymunedau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cyfleoedd ôl-16 ar gael yn Sir y Fflint mewn 11 Ysgol Uwchradd (gan gynnwys un lleoliad Cyfrwng Cymraeg ac un lleoliad Ffydd) ac yn nau safle Coleg Glannau Dyfrdwy.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llunio model darpariaeth sy'n ategu'r egwyddorion y cytunwyd arnynt ym mharagraff 1.3.1</li> </ul>
4 Sicrhau bod y cyrsiau ôl-16 o safon a fynir gan ein myfyrwyr, cyflogwyr lleol, yr Awdurdod Lleol a	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cyfleoedd ôl-16 ar gael yn Sir y Fflint mewn 11 Ysgol Uwchradd (gan gynnwys un lleoliad Cyfrwng Cymraeg ac un lleoliad Ffydd) ac yn nau safle Coleg Glannau Dyfrdwy.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu dewis o'r amrywiaeth ehangaf posibl o gyrсияu, ar y lefel briodol, sy'n bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau, gan sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i</li> </ul>

<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu darparu'n effeithlon.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan Goleg Glannau Dyfrdwy (yn y ddau safle) amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgwyr ar gyrsiau Lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2, yn ogystal â Lefel 3.</li> </ul>	<p>ddysgwyr a bodloni'r egwyddorion a nodwyd ym mharagraff 1.3.1 yn effeithlon ar yr un pryd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod pob lleoliad ôl-16 sy'n cynnig cyrsiau Lefel tri yn llwyddo i gael cyfraddau llwyddiant cystal neu well na chyfraddau Cymru.</li> <li>• Arolygiadau ardal ac arolygiadau o sefydliadau unigol ym maes darpariaeth 14-19 i gael sgôr un ai da neu ardderchog gan Estyn ym mhob achos</li> </ul>
<p>5 Sicrhau y cyflwynir darpariaeth addysgol ôl-16 mewn modd sy'n bodloni dyheadau amgylcheddol ein trigolion, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac arferion gorau / canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid cludo dysgwyr yn ôl ac ymlaen i ganolfannau dan y ddarpariaeth bresennol. Gallai mwy o gydweithio gynyddu'r galw o ran teithio yng nghyswllt y dysgwyr.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu dewis o'r amrywiaeth ehangaf posibl o gyrsiau, ar y lefel briodol, a bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau gan osgoi gormod o deithio i ddysgwyr o ran pellter ac amledd ar yr un pryd.</li> <li>• Sicrhau tegwch o ran hawl i deithio ym mhob rhan o'r sir.</li> <li>• Lleihau'r gost o ddarparu cludiant gymaint â phosibl, gan leddfu'r angen i ddefnyddio car preifat ar yr un pryd, a thrwy hynny, osgoi tagfeydd traffig a pharcio yng nghyffiniau safleoedd addysgol.</li> </ul>

### 1.3 Yr Achos Economaidd

Ystyriwyd y ddarpariaeth addysg ôl-16 ar sail dwy ardal ddaearyddol, ac eithrio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth seiliedig ar Ffydd. Yn sgil y dull ar sail ardal hwn, wrth ystyried yr holl ddewisiadau cydweithio ac ailstrwythuro ym mhob ardal, yn ystod "dyddiau darparwyr" dewiswyd y rhai oedd yn cynnig cyfle rhesymol i sicrhau gwell canlyniadau, cynaliadwyedd, cydymffurfiad statudol a gwerth am arian. Cyfarfodydd a gynhaliwyd bob mis gyda chynrychiolwyr o bob un o'r deuddeg ysgol a'r coleg oedd y dyddiau darparwyr ac ynddynt trafodwyd y cynigion trawsnewid. Disgrifir y rhestr hir o opsiynau isod.

#### 1.3.1 Y rhestr hir

##### 1.3.1.1 Y Gogledd

- Opsiwn 1 - Gwneud dim, y cynlluniau yn aros fel ag y maent ar hyn o bryd
- Opsiwn 2 – Crynhoi'r ddarpariaeth ôl-16 ar Gampws Cei Connah, gyda pheth ad-drefnu mewn mannau eraill
- Opsiwn 3 - Rhannu'r ddarpariaeth a chydweithio ar sail y Gogledd Orllewin (Treffynnon, Y Fflint a St Richard Gwyn) a'r Gogledd Ddwyrain (John Summers, Cei Connah, Dewi Sant).
- Opsiwn 4 – Ail-gategoreiddio'r holl ysgolion i fod yn ddarparwyr ar gyfer disgyblion 11-16 oed a chael un darparwr ôl-16 sy'n cael ei lywodraethu'n annibynnol.

##### 1.3.1.2 Y De

- Opsiwn 5 - Gwneud dim, y cynlluniau yn aros fel ag y maent ar hyn o bryd
- Opsiwn 6 - Cydweithio rhwng Castell Alun a Phenarlâg, ac Ysgol Alun, Yr Wyddgrug, Ysgol Uwchradd Elfed ac Ysgol Uwchradd Argoed

#### 1.3.2 Y rhestr fer

Ar y sail y cafwyd cytundeb ynghylch y ffordd orau ymlaen, argymhellwn fod yr opsiynau isod yn cael eu gwerthuso ymhellach ac yn fwy manwl yn yr Achos Busnes Amlinellol:

- Opsiwn 1 a 5 – Gwneud dim yn y ddwy ardal
- Opsiwn 2 – cydweithio yn y Gogledd (crynhoi'r ddarpariaeth ôl-16 yng Nghei Connah)
- Opsiwn 4 - cydweithio yn y Gogledd (ail-gategoreiddio'r holl ysgolion i fod yn ddarparwyr 11-16 a chael un sefydliad annibynnol yn cynnig darpariaeth ôl-16)
- Opsiwn 6 - cydweithio yn y De

O ganlyniad, caiff yr opsiwn a ffafrir yn nhermau'r ad-drefnu ei ddynodi a'i argymhell ar gyfer ei gymeradwyo yn yr Achos Busnes Amlinellol.

### 1.3.3 Costau dangosol

#### 1.3.3.1 Cyflwyniad

At ddibenion y dadansoddiad hwn rhannwyd ysgolion Sir y Fflint yn ddwy garfan, sef Gogledd a De; mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddiad yn ymhelaethu ar yr opsiynau sydd ar y rhestr fer ar gyfer yr ysgolion yn y Gogledd. Dangosir yr opsiwn ar gyfer y De yn rhan olaf yr atodiad hwn. Y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer yr holl opsiynau dros oes o 25 mlynedd yw 3.5%.

#### 1.3.3.2 Data Sylfaenol

Nodir y data sylfaenol ar gyfer ysgolion y Gogledd ac ysgolion y De yn y tablau isod.

#### Niferoedd Disgyblion yn Ysgolion y Gogledd (Medi 2009)

Ysgol	11 - 16	ôl 16	cyfanswm
Cei Connah	913	97	1,010
John Summers	395	50	445
Y Fflint	624	82	706
Treffynnon	634	96	730
Dewi Sant	565	70	635

#### Fformiwla Gyllido Ysgolion y Gogledd (£oedd 2009/10)

Ysgol	11 - 16	ôl 16	cyfanswm
Cei Connah	3,397,608	354,373	3,751,980
John Summers	1,735,699	213,137	1,948,836
Y Fflint	2,358,850	136,322	2,495,172
Treffynnon	2,580,388	305,799	2,886,188
Dewi Sant	2,079,682	244,414	2,324,097

#### Niferoedd Disgyblion yn Ysgolion y De (Medi 2009)

Ysgol	11 - 16	ôl 16	cyfanswm
Elfed	615	92	707
Penarlâg	929	181	1,110
Castell Alun	1,018	221	1,239
Ysgol Alun	1,206	556	1,762
Argoed	581	-	581

#### Fformiwla Gyllido Ysgolion y De (£oedd 2009/10)

School	11 - 16	post 16	total
Elfed	2,388,896	372,935	2,761,831
Penarlâg	3,314,356	694,207	4,008,563
Castell Alun	3,522,736	701,669	4,224,405
Ysgol Alun	4,459,546	1,814,958	6,274,504
Argoed	2,195,968	-	2,195,968

### 1.3.4 Grŵp Ysgolion y Gogledd – Dadansoddiad o'r Opsiynau

#### 1.3.4.1 Opsiwn 0: Achos Sylfaenol y Gogledd

Mae model ariannol sylfaenol grŵp y Gogledd yn dangos cost referniw flynyddol o £13.406m y flwyddyn. Seiliwyd y dadansoddiad ar oes o 25 mlynedd gyda ffactor disgownt o 3.5%.

Dangosir yr achos ariannol ar gyfer Opsiwn 0 isod.

Opsiwn 0: Achos Ariannol Sylfaenol								
Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presennol Net	Blynyddoedd, blynyddoedd 6 – 25 fel blwyddyn 5					
			0	1	2	3	4	5
<b>Costau Cyfredol / Refeniw</b>								
Fformiwla cyllido	-348556	-234357	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406
<b>Cyfansymiau</b>	<b>-348556</b>	<b>-234357</b>	<b>-13406</b>	<b>-13406</b>	<b>-13406</b>	<b>-13406</b>	<b>-13406</b>	<b>-13406</b>

Dangosir yr achos economaidd sylfaenol isod.

Opsiwn 0: Dadansoddiad Economaidd Sylfaenol								
Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presennol Net	Blynyddoedd, blynyddoedd 6 – 25 fel blwyddyn 5					
			0	1	2	3	4	5
<b>Costau referniw</b>								
Fformiwla cyllido	-348556	234357	13406	13406	13406	13406	13406	13406
<b>Cyfanswm y costau referniw</b>	<b>-348556</b>	<b>234357</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>
<b>Costau cyfalaf</b>								
Ailwampio cyfleusterau presennol								
<b>Cyfanswm y costau cyfalaf</b>								
<b>Cyfansymiau</b>	<b>-348556</b>	<b>234357</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>

#### 1.3.4.2 Opsiwn 1: Y Gogledd, Gwneud y Lleiaf Posibl



Dan yr opsiwn Gwneud y Lleiaf Posibl, mae'r pum ysgol yn cael eu hailwampio, yn ôl y galw, ar gost o £7.804m wedi'i rhannu'n gydradd dros raglen waith pum mlynedd.

Mae'r achos economaidd yn dangos tuedd optimistaidd o 24%, y tuedd hwn sydd i gyfrif am y tebygolrwydd yr amcangyfrifir yn rhy isel fel arfer ynghylch costau prosiect. Defnyddir 24% ar gyfer darnau o waith o gymhlethdod safonol ac efallai y caiff hwn ei ostwng i ffigur is yn yr achos busnes nesaf, sef yr Achos Busnes Amlinellol.

Dangosir yr achos ariannol ar gyfer Opsiwn 1 isod.

Opsiwn 1: Gwneud y Lleiaf Posibl - Ariannol									
Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presennol Net	Blynyddoedd, blynyddoedd 7 – 25 fel blwyddyn 6						
			0	1	2	3	4	5	6
<b>Costau Cyfredol / Refeniw</b>									
Fformiwla cyllido	-348556	-234357	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406
<b>Cyfansymiau</b>	-348556	-234357	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406
<b>Costau cyfalaf</b>									
Ailwampio cyfleusterau presennol	-7804	-7047		-1561	-1561	-1561	-1561	-1561	
<b>Cyfanswm y costau cyfalaf</b>	-7804	-7047		-1561	-1561	-1561	-1561	-1561	
<b>Cyfanswm Costau</b>	-356360	-241404	-13406	-14967	-14967	-14967	-14967	-14967	-13406

Nodir yr achos economaidd ar gyfer Opsiwn 1 yn y tabl isod:

Opsiwn 1: Gwneud y Lleiaf Posibl - Dadansoddiad Economaidd									
Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presennol Net	Blynyddoedd, blynyddoedd 7 – 25 fel blwyddyn 6						
			0	1	2	3	4	5	6
<b>Costau refeniw</b>									
Fformiwla cyllido	-348556	-234357	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406
<b>Cyfanswm y costau refeniw</b>	-348556	-234357	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406
<b>Costau cyfalaf</b>									
Ailwampio cyfleusterau presennol	-7804	-7047		-1561	-1561	-1561	-1561	-1561	
Tuedd Optimistaidd 24%	-1873	-1691		-375	-375	-375	-375	-375	
<b>Cyfanswm y costau optimistaidd a chyfalaf</b>	-9677	-8738		-1935	-1935	-1935	-1935	-1935	
<b>Cyfanswm Costau</b>	-358233	-243096	-13406	-15341	-15341	-15341	-15341	-15341	-13406

### 1.3.4.3 Opsiwn 2: Y Gogledd, Chweched Dosbarth yng Nghei Connah a Chau Un Ysgol

Yn Opsiwn 2 ar gyfer ysgolion y Gogledd mae'r:

- Ddarpariaeth chweched dosbarth wedi'i chrynhai yng Nghei Connah
- Mae'r unedau chweched dosbarth sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cael eu had-drefnu, un ysgol yn cau
- Ysgolion eraill yn cael eu had-drefnu





Y costau cyfalaf yng Nghei Connah yw £8m wedi'i wario dros gyfnod o dair blynedd o 2015/16 i 2017/18. Mae crynhoi adnoddau yng Nghei Connah ac ad-drefnu ysgolion yn gostwng y y costau referniw o £13.406m y flwyddyn i £11.457m y flwyddyn o 2018/19 ymlaen. Amcangyfrifir y byddai'n costio £1m i chewalu'r ysgol a gaiff ei chau ac y byddai hyn yn digwydd yn 2019/20.



Mae'r achos ariannol ar gyfer Opsiwn 2 yn y Gogledd i'w weld yn y tabl cyntaf isod a nodir yr achos economaidd yn yr ail dabl.

<b>Opsiwn 2: Crynhoi yng Ngheir Connah – Ariannol</b>														
Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presen nol Net	Blynyddoedd, blynyddoedd 11 – 25 fel blwyddyn 10											
			0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	
<b>Costau Cyfredol / Refeniw</b>														
Fformiwla cyllido	-313474	-214152	13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	13406	13406	11457	-11457	-11457
<b>Cyfanswm Refeniw</b>	-313474	-214152	13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	13406	13406	11457	-11457	-11457
<b>Costau Cyfalaf</b>														
Cei Connah	-8000	-6514							-1600	-4960	-1440			
Costau chwalu, ysgol sy'n cau	-1000	-734											-1000	
<b>Cyfanswm Cyfalaf</b>	-9000	-7248							-1600	-4960	-1440		-1000	
<b>Cyfanswm Costau</b>	-322474	-221400	13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-13406	-15006	18366	14846	11457	-12457	-11457

<b>Opsiwn 2: Crynhoi yng Ngheir Connah – Dadansoddiad Economaidd</b>														
Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presen nol Net	Blynyddoedd, blynyddoedd 11 – 25 fel blwyddyn 10											
			0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	
<b>Costau refeniw</b>														
Fformiwla cyllido	-313474	-214152	-13406	13406	13406	13406	13406	13406	13406	13406	13406	11457	11457	11457
<b>Cyfanswm y costau refeniw</b>	-313474	-214152	-13406	13406	13406	13406	13406	13406	13406	13406	13406	11457	11457	11457
<b>Costau cyfalaf</b>														



Cei Connah	-8000	-6514						-1600	-4960	-1440			
Costau chwalu, ysgol sy'n cau	-1000	-734										-1000	
<b>Cyfanswm y costau cyfalaf</b>	<b>-9000</b>	<b>-7248</b>						<b>-1600</b>	<b>-4960</b>	<b>-1440</b>		<b>-1000</b>	
<b>Tuedd Optimistaidd</b>													
24% ar gyfanswm y costau cyfalaf	-2160	-1739						-384	-1190	-346		-240	
<b>Cyfanswm Costau</b>	<b>-324634</b>	<b>-223139</b>	<b>-13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>13406</b>	<b>15390</b>	<b>19556</b>	<b>15192</b>	<b>11457</b>	<b>12697</b>	<b>11457</b>

## Opsiwn 2: Gofynion Cyllido Ychwanegol

Dangosir llif arian y prosiect (heb gynnwys tuedd optimistaidd) yn y tabl isod. Mae'r cyllid a ddarperir ar hyn o bryd yn talu costau'r prosiect ond bydd angen £8m o gyllid ychwanegol ym Mlynnyddoedd 5 i 7 – byddai'r ffrwd ariannu bresennol yn talu'r costau cyfalaf yn rhannol pe bai'n parhau. Dros 25 mlynedd oes yr asesiad mae'r ffrwd gyllido bresennol yn talu costau'r prosiect, mae'r llif arian net yn bositif o Flwyddyn 8 ymlaen.

Opsiwn 2: Gofynion Cyllido		£000oedd	Blynnyddoedd 11 – 25 fel blwyddyn 10										
	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presennol Net	0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
Opsiwn 6 - Llif Arian y Prosiect			- £13,40 6	- £13,40 6	- £13,40 6	- £13,40 6	- £13,40 6	- £15,00 6	- £18,36 6	- £14,84 6	- £11,45 7	- £12,45 7	- £11,45 7
Cyllid Presennol			£13,40 6	£13,40 6	£13,40 6	£13,40 6	£13,40 6	£13,40 6	£13,40 6	£13,40 6	£13,40 6	£13,40 6	£13,40 6
<b>Llif arian net</b>	<b>£26,082</b>	<b>£12,958</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>£1,600</b>	<b>£4,960</b>	<b>£1,440</b>	<b>£1,949</b>	<b>£949</b>	<b>£1,949</b>



---

**Cyfanswm y cyllid  
ychwanegol**                      **-£8,000**

#### 1.3.4.4 Opsiwn 4: Y Gogledd, Model Trydyddol

Yn y model trydyddol ar gyfer ysgolion y Gogledd, mae'r unedau chweched dosbarth sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cael eu cau a darperir y cwricwlwm ar gyfer y chweched dosbarth mewn coleg trydyddol sy'n cael ei lywodraethu'n annibynnol.

Rhagamcennir y bydd costau cyfalaf y gwelliant trydyddol yn £13.176m wedi'i fuddsoddi dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau yn 2011/12 (blwyddyn 1 y model).

Rhagamcennir mai 5,500m<sup>2</sup> fydd arwynebedd llawr y coleg trydyddol newydd a thybir mai £219k y flwyddyn fydd cyfanswm costau'r eiddo sy'n golygu mai £4,870 y flwyddyn fydd costau reffeniw terfynol y coleg trydyddol.

Yn y tabl isod nodir niferoedd y disgyblion a'r costau reffeniw diwygiedig.

Cyfleuster	Nifer y disgyblion	Costau Refeniw mewn £000oedd
Coleg Trydyddol	1,308	4,870
Ysgolion 11 - 16	2,218	8,755

Dangosir yr achos ariannol ar gyfer Opsiwn 4 isod.

Opsiwn 4: Blynnydoedd Ariannol Coleg Trydyddol y Gogledd, blynnydoedd 6 – 25 fel blwyddyn 5								
Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presennol Net		11/2012	12/2013	13/2014	14/2015	15/2016
			0	1	2	3	4	5
<b>Costau Cyfredol / Refeniw</b>								
Trydyddol	-126620	-85135	-4870	-4870	-4870	-4870	-4870	-4870
Ysgolion 11 – 16, fformiwla cyllido	-227630	-153051	-8755	-8755	-8755	-8755	-8755	-8755
<b>Cyfanswm Refeniw</b>	<b>-354250</b>	<b>-238186</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>
<b>Costau Cyfalaf</b>								
Ailwampio								
Coleg Trydyddol – costau cyfalaf	-13176	-12294		-2372	-8169	-2635		
Costau chwalu								
<b>Cyfanswm Cyfalaf</b>	<b>-13176</b>	<b>-12294</b>		<b>-2372</b>	<b>-8169</b>	<b>-2635</b>		
<b>Cyfanswm Costau</b>	<b>-367426</b>	<b>-250480</b>	<b>-13625</b>	<b>-15997</b>	<b>-21794</b>	<b>-16260</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>

Nodir yr achos economaidd ar gyfer Opsiwn 4 yn y tabl isod.

Opsiwn 4: Coleg Trydyddol y Gogledd – Dadansoddiad Economaidd								
Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presennol Net	Blynyddoedd, blynyddoedd 6 – 25 fel blwyddyn 5					
			0	1	2	3	4	5
<b>Costau refeniw</b>								
Coleg Trydyddol	-126620	-85135	-4870	-4870	-4870	-4870	-4870	-4870
Ysgolion 11 – 16, fformiwla cyllido	-227630	-153051	-8755	-8755	-8755	-8755	-8755	-8755
<b>Cyfanswm y costau refeniw</b>	<b>-354250</b>	<b>-238186</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>
<b>Costau cyfalaf</b>								
Ailwampio								
Coleg Trydyddol – costau cyfalaf	-13176	-12294		-2372	-8169	-2635		
Costau chwalu								
<b>Cyfanswm y costau cyfalaf</b>	<b>-13176</b>	<b>-12294</b>		<b>-2372</b>	<b>-8169</b>	<b>-2635</b>		
<b>Tuedd Optimistaidd</b>								
24% ar gyfanswm y costau cyfalaf	-3162	-2951		-569	-1961	-632		
<b>Cyfanswm y Costau</b>	<b>-370588</b>	<b>-253431</b>	<b>-13625</b>	<b>-16566</b>	<b>-23755</b>	<b>-16892</b>	<b>-13625</b>	<b>-13625</b>

#### 1.3.4.5 Dadansoddiad Sensitifrwydd – Opsiynau'r Gogledd

Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd drwy addasu'r Gwerthoedd Presennol Net ar gyfer costau cyfalaf a refeniw +10% a -10% yng nghyswllt yr opsiynau ar gyfer ysgolion y Gogledd.

Dadansoddiad Sensitifrwydd o'r Gwerthoedd Presennol Net Economaidd yng nghyswllt Opsiynau'r Gogledd

£000s	Opsiwn 0	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 4	Safle
<b>Gwerthoedd Presennol Net Sylfaenol</b>	-£234,357	-£243,096	-£223,139	-£253,431	Op 2 = 1
Cynyddu Cyfalaf 10%	-£234,357	-£243,970	-£224,038	-£254,956	Op 2 = 1
Cynyddu Costau Refeniw 10%	-£257,793	-£266,532	-£244,554	-£277,250	Op 2 = 1
Lleihau Cyfalaf 10%	-£234,357	-£242,222	-£222,240	-£251,906	Op 2 = 1
Lleihau Costau Refeniw 10%	-£210,921	-£219,660	-£201,724	-£229,612	Op 2 = 1

Gosodir Opsiwn 2 yn y safle 1af yng nghyswllt pob senario.

### 1.3.5 Ysgolion y De

Y dull a ffafirir ar gyfer ysgolion y De yw cydweithio ac ad-drefnu, sef Opsiwn 6. Nodir y costau sylfaenol yn Opsiwn 00 isod. Yr un ffigyrau sy'n berthnasol i'r achos ariannol ac i'r achos economaidd a dangosir y rhain fel un tabl isod.

Opsiwn 00: Achos Economaidd ac Ariannol Sylfaenol									
Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presen nol Net	Blynyddoedd, blynyddoedd 6 – 25 fel blwyddyn 5						
			0	1	2	3	4	5	6
<b>Costau Cyfredol / Refeniw</b>									
Fformiwla cyllido	-506090	-340278	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465	-
<b>Cyfansymiau</b>	-506090	-340278	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465	19465

Nid yw'r costau refeniw rhagamcanol ar gyfer Opsiwn 6 yn newid ar y cam hwn o ddatblygu'r opsiwn ac felly maent yn aros ar lefelau hanesyddol.

Mae gofyn cael buddsoddiad cyfalaf o £7.865m dros gyfnod o bum mlynedd ar sail gwariant cyfartal sy'n dechrau ym Mlwyddyn 1 ar gyfer ailwampio'r stoc ysgolion presennol. Yng nghyswllt yr achos economaidd rhagdybir bod tuedd optimistaidd o 24% - efallai y caiff y ffigur hwn ei ostwng yn sgil dadansoddiad manylach.

Nodir yr achos ariannol ar gyfer Opsiwn 6 yn y tabl isod.

Opsiwn 6: Cydweithio - Ariannol									
Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd	Cyfanswm y Gost	Gwerth Presen nol Net	Blynyddoedd, blynyddoedd 7 – 25 fel blwyddyn 6						
			0	1	2	3	4	5	6
<b>Costau Cyfredol / Refeniw</b>									
Fformiwla cyllido	-506090	-340278	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465	-
<b>Cyfansymiau Refeniw</b>	-506090	-340278	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465	19465
<b>Costau Cyfalaf</b>									
Ailwampio	-7865	-7102		-1573	-1573	-1573	-1573	-1573	

<b>Cyfansymiau Cyfalaf</b>	-7865	-7102		-1573	-1573	-1573	-1573	-1573	
<b>Cyfanswm y costau</b>	<b>-513955</b>	<b>-347380</b>	<b>-19465</b>	<b>-21038</b>	<b>-21038</b>	<b>-21038</b>	<b>-21038</b>	<b>-21038</b>	<b>19465</b>

Nodir yr achos economaidd ar gyfer Opsiwn 6 yn y tabl isod.

<b>Opsiwn 6: Cydweithio – Dadansoddiad Economaidd</b>									
<b>Mae'r ffigyrau i gyd mewn £000oedd</b>	<b>Cyfanswm y Gost</b>	<b>Gwerth Presen nol Net</b>	<b>Blynyddoedd, blynyddoedd 7 – 25 fel blwyddyn 6</b>						
			0	1	2	3	4	5	6
<b>Costau refeniw</b>									
Fformiwla cyllido	-506090	-	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465	-19465
<b>Cyfanswm y costau refeniw</b>	<b>-506090</b>	<b>-</b>	<b>-19465</b>	<b>-19465</b>	<b>-19465</b>	<b>-19465</b>	<b>-19465</b>	<b>-19465</b>	<b>19465</b>
<b>Costau cyfalaf</b>									
Ailwampio cyfleusterau presennol	-7865	-7102		-1573	-1573	-1573	-1573	-1573	
<b>Cyfansymiau Cyfalaf</b>	<b>-7865</b>	<b>-7102</b>		<b>-1573</b>	<b>-1573</b>	<b>-1573</b>	<b>-1573</b>	<b>-1573</b>	
<b>Tuedd Optimistaidd</b>									
Tuedd Optimistaidd 24%	-1888	-1705		-378	-378	-378	-378	-378	
<b>Cyfansymiau</b>	<b>-515843</b>	<b>349084</b>	<b>-19465</b>	<b>-21416</b>	<b>-21416</b>	<b>-21416</b>	<b>-21416</b>	<b>-21416</b>	<b>19465</b>

## 1.4 Yr Achos Masnachol

Mae'r achos masnachol yn y cam Achos Amlinellol Strategol o'r achos busnes yn rhoi trosolwg lefel uchel iawn o gaffael gwasanaethau perthnasol. Caiff yr achos hwn ei ddatblygu'n fwy manwl ar y cam Achos Busnes Amlinellol.

### 1.4.1 Strategaeth gaffael

Mae'r strategaeth gaffael a ddefnyddir gan Gyngor Sir y Fflint yn tendro am wasanaethau drwy'r broses OJEU. Nid oes unrhyw fframweithiau wedi'u sefydlu ar gyfer caffael gwasanaethau ymgynghori allanol ond mae Sir y Fflint yn credu mewn dull partneriaeth lle mae darparwyr allanol yn mabwysiadu cyfres contractau NEC3 lle bo hynny'n berthnasol.



Mae'r awdurdod wedi cael cyllid i ymchwilio i gaffael gwasanaethau allanol ar gyfer ysgolion yn y rhanbarth; mae hyn yn debygol o arwain at lunio fframweithiau ar gyfer darparu gwasanaethau cyflenwi ac ymgynghori allanol yng nghyswllt Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac ysgolion trawsnewid. Bydd y dull hwn hefyd yn ailgylchu'r buddsoddiad yn yr economi leol.

Mae'r amserlen ar gyfer gweithredu'r prosiect eto i'w phennu a bydd hon, ynghyd â diweddariad ar y fframweithiau, yn cael ei llunio yn ystod y cam Achos Busnes Amlinellol.

#### 1.4.2 Gwasanaethau – y gofynion

Bydd yr union ofynion o safbwynt gwasanaethau yn cael eu gwerthuso yn yr Achos Busnes Amlinellol ar ôl penderfynu'n derfynol ar yr opsiynau ad-drefnu a'r gofynion o safbwynt cyfalaf yn dilyn hynny.

#### 1.4.3 Y posibiliadau o safbwynt trosglwyddo risg a dulliau talu posibl

Asesiad cychwynnol o sut y gellid rhannu'r risgiau cysylltiedig rhwng y sector cyhoeddus (Cyngor Sir y Fflint) a'r sector preifat (y contractwr a gaiff ei enwebu ar gyfer y gwaith adeiladu cysylltiedig), ac, mewn rhai achosion, rhwng y ddau sefydliad a enwebwyd.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint brofiad o fabwysiadu a defnyddio contractau NEC 3 sy'n meithrin dull cydweithredol a dull partneriaeth o weithio. Yr egwyddor gyffredinol yw sicrhau bod risgiau yn cael eu pasio i'r 'corff sy'n gallu ymdrin â nhw orau', yn amodol ar werth am arian. Yn y tabl isod, nodir sut y gellid dyrannu'r risgiau; caiff hyn ei werthuso a'i adolygu ar y cam Achos Busnes Amlinellol er mwyn gwneud yn siŵr bod risgiau'n cael eu dyrannu'n briodol.

**Tabl 1-2: Rhannu risg**

Categori Risg	Dyraniad posibl		
	Cyhoeddus	Preifat	Rhannu
Risg dylunio		✓	
Risg datblygu ac adeiladu		✓	
Risg gweithredu a phontio			✓
Risg perfformiad ac argaeledd		✓	
Risg gweithredu	✓		
Risgiau o safbwynt amrywioldeb refeniw	✓		
Risgiau terfynu		✓	
Risgiau o safbwynt technoleg a darfodiad	✓		
Risgiau rheoli	✓		
Risgiau gwerth gweddilliol	✓		
Risgiau ariannu	✓		
Risgiau deddfwriaethol			✓

Risgiau prosiect eraill			✓
-------------------------	--	--	---

## 1.5 Yr Achos Ariannol

Mae'r achos ariannol sydd wedi'i gynnwys ar y cam Achos Amlinellol Strategol o'r achos busnes hefyd ar lefel gymharol uchel oherwydd manylder yr opsiynau sydd wedi'u datblygu. Ar ôl llunio'r opsiynau ar gyfer ad-drefnu a chydweithio, bydd yr achos hwn yn cael ei ddatblygu'n fwy manwl yn yr Achos Busnes Amlinellol.

### 1.5.1 Crynodeb o'r gwerthusiad ariannol

Bydd y goblygiadau ariannol o ran llif arian dros oes y prosiect yn cael eu datblygu'n fanwl yn yr Achos Busnes Amlinellol.

## 1.6 Yr Achos Rheoli

### Darpariaeth Addysg ôl-16 yn Sir y Fflint – Llywodraethu'r gwahanol opsiynau.

Gosododd y darparwyr yr opsiynau mewn trefn ac maent yn ymwneud â Gogledd y Sir (opsiynau 1-4), De'r Sir (opsiynau 5 a 6) ac â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (opsiynau 7 ac 8).

**Opsiwn 2** yw'r opsiwn a ffafrir o blith y 4 opsiwn a gyflwynwyd yng nghyswllt darpariaeth yn y Gogledd, sef crynhoi'r ddarpariaeth yng Nghei Connah ac ad-drefnu rhywfaint ar y ddarpariaeth mewn Ysgolion.

Mewn trafodaethau â'r darparwyr, y teimlad oedd y byddai angen rhywfaint o gynrychiolaeth gyfrannol yng nghyswllt yr ysgolion unigol er mwyn adlewyrchu nifer y dysgwyr oedd yn manteisio ar y ddarpariaeth yng Nghei Connah. Mae modelau ar waith ar hyn o bryd, lle mae ysgolion eisoes yn cydweithio e.e. y trefniant rhwng Ysgol Uwchradd Penarlâg a Chastell Alun yn Yr Hob.

Drwy gael cynrychiolaeth, byddai modd dylanwadu ar y cwricwlwm ac ar faterion eraill ymysg yr ysgolion.

Gan y byddai'r model hwn yn cynnwys nifer o ysgolion, byddai angen i'r trefniant llywodraethu gynrychioli holl ysgolion y consortiwm.

Mae **Opsiwn 4** yn opsiwn posibl a roddwyd gerbron yn yr ymarfer gwerthuso. Byddai hyn yn cynnwys darpariaeth drydyddol annibynnol yng Nghei Connah, wedi'i rheoli gan Goleg Glannau Dyfrdwy.

Mewn trafodaethau â darparwyr, y teimlad oedd mai Coleg Glannau Dyfrdwy ddylai fod yn gyfrifol am lywodraethu'r opsiwn hwn, gan y byddai'r dysgwyr wedi cofrestru â'r Coleg, a byddai Coleg Glannau Dyfrdwy yn derbyn yr arian yn uniongyrchol.

**Opsiwn 6** yw'r opsiwn a ffafrir yng nghyswllt y ddarpariaeth yn Ne'r Sir, sy'n cynnwys Yr Wyddgrug/Bwcle Penarlâg a'r Hob. Byddai'r opsiwn hwn yn galw am fwy o gydweithio rhwng ysgolion ac am gael gwared â lleoedd gwag drwy ad-drefnu Adeiladau.

Mewn trafodaethau â darparwyr, nodwyd bod modelau cydweithio eisoes yn bodoli sy'n cynnwys y drefn lywodraethu angenrheidiol, gyda chynrychiolwyr o'r ysgol yn trafod materion yn ymwneud ag amserlennu, staffio a materion eraill cysylltiedig â'r cwricwlwm. Y farn oedd bod hon yn ffordd lwyddiannus o weithio.

Mae **Opsiwn 8** yn opsiwn sy'n berthnasol i'r ysgol cyfrwng Cymraeg, sef Ysgol Maes Garmon. Mae cydweithio eisoes yn digwydd o ran bodloni'r Mesur Dysgu a Sgiliau, gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yr Awdurdod, sef Morgan Llwyd yn Wrecsam a Glan Clwyd yn Sir Ddinbych. Byddai'r ddarpariaeth a rennir yn parhau i gael ei rheoli dan y trefniant hwn, gyda'r ysgolion sy'n rhan ohono yn rheoli materion cysylltiedig â llywodraethu.

#### **1.6.1 Trefniadau ar gyfer rheoli prosiectau**

Dyma'r trefniadau adrodd:

- Tîm Ôl-16 Sir y Fflint yn adrodd i Fwrdd y Rhaglen Ôl-16 drwy Tom Davies (Arweinydd y Prosiect)
- Bwrdd Rhaglen Ôl-16 Sir y Fflint yn adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol drwy Ian Budd
- Y Tîm Rheoli Corfforaethol yn adrodd i'r Pwyllgor Gwaith drwy Ian Budd

Y bwriad yw cadw'r trefniadau llywodraethu hyn gydol y gwaith o lunio'r Achos Busnes Amlinellol.

#### **1.7 Argymhelliad**

Argymhellwn fod Partneriaeth Dysgu 14-19 Sir y Fflint yn cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol hwn ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru a bod yr holl wybodaeth yn cael ei dwyn ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol.

**Llofnod:**

**Dyddiad:**

**Uwch Berchennog Cyfrifol**

## 2.0 Yr Achos Strategol

### 2.1 Cyflwyniad

Mae'r Achos Strategol yn nodi'r cyd-destun strategol a'r achos dros newid, ac yn egluro'r amcanion buddsoddi y caiff y cynigion eu gwerthuso yn eu herbyn. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys sut mae'r cynigion gan Sir y Fflint yn yr Achos Amlinellol Strategol yn berthnasol i strategaethau busnes presennol y sefydliad ac i strategaethau cenedlaethol a sut maent yn cyd-fynd â nhw. Mae hefyd yn cynnig achos cryf dros newid, yn nhermau anghenion gweithredol y sefydliad yn awr ac yn y dyfodol o safbwynt llunio strategaethau lleol a chenedlaethol. Mae'n amlwg fod partneriaid yn sylweddoli bod angen sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy gydweithio ac ad-drefnu.

### 2.2 Y Cyd-destun Cenedlaethol a sut y rhoddir ef ar waith yn Sir y Fflint

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ei rhaglen Trawsnewid, wedi rhoi blaenoriaeth i foderneiddio'r ddarpariaeth ddysgu ledled Cymru, er mwyn iddi fod yn fwy effeithiol ac effeithlon. Y nod yw creu trawsnewid ar draws y system er budd plant, pobl ifanc ac oedolion, drwy'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Fframwaith Effeithiolrwydd ac Ansawdd ar gyfer dysgu ôl-16. Y nod yw darparu cyfleoedd dysgu o'r ansawdd gorau i bawb, cryfhau mynediad at ddewisiadau dysgu, gwella'r ddarpariaeth o ran dysgu a gwella'r amgylchedd dysgu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn deall bod lle sylweddol o hyd i awdurdodau lleol gynllunio a threfnu ysgolion yn fwy effeithiol ac effeithlon, i godi safonau ac i ddarparu adeiladau gwell ar gyfer disgyblion o bob oed.

Seiliwyd y rhesymeg genedlaethol ar gyfer strategaeth 14-19 Sir y Fflint a'r trawsnewid ôl-16 ar yr amcanion canlynol:

- ehangu'r dewisiadau sydd ar gael i fyfyrwyr yn y cyfnod 14-19 mewn ffordd sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer amrywiaeth gynhwysfawr o lwybrau sgiliau a dysgu, sy'n parhau i fod ar gael ac yn agored iddynt ac sy'n adlewyrchu dulliau dysgu amrywiol y myfyrwyr;
- lleihau unrhyw ddyblygu diangen yn y ddarpariaeth drwy fwy o gydweithio a chyd-drefnu, yn arbennig ym maes cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, ac yn benodol yng nghyswllt y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14-19 ac 16-18;
- symud ymlaen i ragoriaeth ar draws yr holl rwydweithiau ar gyfer darparwyr, gan adeiladu ar y cynnydd da mae darparwyr unigol wedi'i wneud o ran codi safon yng nghyswllt rheoli sefydliadau a phrofiad dysgu myfyrwyr;
- annog model cydweithio rhanbarthol ac isranbarthol ar gyfer darparu addysg Cyfrwng Cymraeg; ac

- adolygu'r ddarpariaeth ar sail Ffydd yn y sir yn unol â datblygiadau mewn awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael i

ddysgwyr Sir y Fflint a'i bod yn gynaliadwy.

Er mwyn defnyddio'r amcanion hyn mewn modd sy'n briodol i gyd-destun Sir y Fflint cynhaliwyd proses ymgynghori yn lleol sydd wedi esgor ar gyfres o egwyddorion y cytunwyd arnynt â phartneriaid. Mae'r egwyddorion canlynol wrth wraidd y strategaeth ôl-16:

- Mae anghenion dysgwyr yn ganolog.
- Caiff cydweithio a phartneriaethau eu ffurfioli drwy drefniadau llywodraethu cadarn.
- Bydd gan ddysgwyr yr hawl i gael dewis ehangach o lwybrau, sy'n bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Bydd adeiladau, cyfleusterau dysgu, ystafelloedd a'r amgylchedd yn addas i'r pwrpas, gan gynnwys gofynion o ran addysgu, dysgu, y cwricwlwm a thechnoleg.
- Bydd y ddarpariaeth 14-19, Ôl-16 a darpariaeth gysylltiedig yn rhan o'r strategaeth i foderneiddio'r ddarpariaeth addysgol ac ysgolion a bydd yn elwa o Gynllun Rheoli Asedau a chael gwared â lleoedd gwag.
- Bydd cyrsiau ôl-16 yn gynaliadwy ac yn cael eu hariannu drwy ddyraniadau SGAG heb unrhyw groes-gymhorthdal sylweddol â chyfnodau dysgu eraill na dibyniaeth ar gyllid grant tymor byr, er bod modd defnyddio hwn i gefnogi materion sy'n ymwneud â gweithredu.
- Rhaid i welliant ddeillio o'r newidiadau (safonau, dewis, cyfraddau cyfranogi).
- Bydd mwy o gyfleoedd i ddysgu yn Saesneg a/neu yn Gymraeg ac mewn lleoliad ffydd.
- Dylid osgoi gormod o deithio i'r dysgwr (o ran pellter ac amledd), ond bydd tegwch o ran hawl ym mhob rhan o'r sir.
- Datblygir partneriaethau o fewn fframwaith Sicrhau Ansawdd cytunedig.
- Bydd model y ddarpariaeth Ôl-16 yn ystyried cynhwysiant cymdeithasol a'r effaith ar gymunedau. Dylai canlyniadau adlewyrchu ymrwymadau yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, gan gynnwys yng nghyswllt adfer ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Dylid cynnwys staff yn llawn ar gyfnodau priodol yn y broses gwerthuso opsiynau a gwneud penderfyniadau.
- Caiff cysondeb staffio a materion cysylltiedig â chyflogaeth eu hystyried, gan gydnabod yr angen i gynnal safonau a darparu cyfleoedd hyfforddi ac ailhyfforddi priodol.
- Caiff gwybodaeth gymaradwy ynghylch canlyniadau dysgwyr ym mhob lleoliad dysgu ei chynhyrchu a'i hystyried, gan gynnwys data am werth a ychwanegwyd.

Mae rhaglen strategol Sir y Fflint ar gyfer datblygu a thrawsnewid y ddarpariaeth 14-19 ac ôl-16 yn ymgorffori ac yn gwneud ei hun yn gydnaws â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y'i cynrychiolir yn Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru a Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau.

## 2.3 Rhan A: Y cyd-destun strategol

Nid yw'r Achos Amlinellol Strategol hwn, a'r cynigion sydd ynddo, ond yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i addysg ôl-16 yn Sir y Fflint, fel y'u lluniwyd gan y Rhwydwaith 14-19; nid yw'n cynnwys llawer o fanylion ynghylch y buddsoddi cyfalaf arall sy'n digwydd yn y sir ac mewn cynghorau cyfagos, ac eithrio er mwyn amlygu maint y newid ac i ddangos lle y gellir meithrin cysylltiadau.

Canmolwyd Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP)<sup>1</sup> Mawrth 2010 am ei dadansoddiad manwl o amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a lleol, safbwyntiau dysgwyr a data perfformiad addysgol. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn parhau i weithredu ei raglen ehangach o ddileu lleoedd gwag a moderneiddio ysgolion yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Ceir manylion llawn yn y strategaeth buddsoddi mewn ysgolion yn Atodiad A.

### 2.3.1 Nodau ac Amcanion Strategol

Mae'r rhaglen strategol ar gyfer datblygu a thrawsnewid y ddarpariaeth 14-19 ac ôl-16 yn rhan annatod o Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ehangach Sir y Fflint ac mae wedi'i gosod o fewn cyd-destun canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Strategaeth Trawsnewid Sir y Fflint wedi'i seilio ar nifer o nodau allweddol, sef:

- bod y ddarpariaeth yn addas i'r pwrpas o roi addysg o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc, myfyrwyr a dysgwyr gydol oes yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif;
- lleoli'r ddarpariaeth iawn ar yr adeg iawn yn y lleoliadau iawn a'i fformiwleiddio i wasanaethu ein cymunedau daearyddol, cymdeithasol a dysgu yn y ffordd orau bosibl;
- gwneud y defnydd gorau bosibl o adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu, a lleoli darpariaeth addas i'r pwrpas sy'n cynnwys sicrhau effeithlonrwydd a chynaliadwyedd; a
- chydweithio yng nghyswllt cynllunio a gweithredu newid ym meysydd darpariaeth 14-19, ôl-16, AB ac AU er mwyn sicrhau'r trefniadau gorau bosibl ar gyfer dysgwyr, athrawon a sefydliadau darparu yn Sir y Fflint.

Un o'r nodau craidd sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint 2008-2011 yw 'sicrhau bod plant a phobl ifanc Sir y Fflint yn cael amrediad cynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu'. Mae'r dadansoddiad yn y cynllun yn nodi bod cyrhaeddiad yn Sir y Fflint yn cymharu'n ffafriol

<sup>1</sup> [http://www.flintshire.gov.uk/dominoimgs/csec/testmin3.nsf//0/C498D5B1ECD639848025773F005697F2/\\$File/TMP65B.PDF](http://www.flintshire.gov.uk/dominoimgs/csec/testmin3.nsf//0/C498D5B1ECD639848025773F005697F2/$File/TMP65B.PDF)

ag ystadegau ar gyfer Cymru gyfan ar draws y mwyafrif o grwpiau oedran, ond bod 'lle amlwg i wella yng nghyswllt addysg ôl-16'. Mae'r cynllun yn nodi llu o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwella'r gwasanaethau dysgu ac addysg a ddarperir i'r gymuned, gan gynnwys blaenoriaeth i fuddsoddi mewn ysgolion er mwyn eu gwneud yn 'addas i'r pwrpas'. Bydd y cynllun o gymorth i'r Cynllun Datblygu Lleol wrth asesu'r angen am leoedd mewn ysgolion yn awr ac yn y dyfodol yn sir y Fflint ac i lunio cynllun wedi'i gostio ar gyfer adfywio ysgolion.

Un o weithgareddau allweddol y Rhwydwaith 14-19 oedd datblygu amrywiaeth eang o lwybrau dysgu ar gyfer pobl ifanc yn Sir y Fflint. O fewn Strategaeth 3 Blynedd Llwybrau Dysgu 14-19, lluniwyd strategaethau lleol i:

- alluogi pobl NEET (rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) i fanteisio ar addysg drwy amryw o asiantaethau;
- cyflwyno cwricwlwm priodol sy'n diwallu'r angen am baratoi pobl ar gyfer y farchnad waith leol, er enghraifft, drwy ddatblygu llwybr Prif Ddysgu ym maes Peirianeg sy'n cydweddu â diwydiannau peirianeg Sir y Fflint;
- darparu anogwyr dysgu ychwanegol i gefnogi annog dysgu, cymorth personol ac arweiniad a chynghor gyrfa;
- parhau i ddefnyddio'r strwythur Rhwydwaith 14-19 i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol;
- archwilio ymhellach i'r cyfleoedd sydd ar gael i gydweithio er mwyn cynnig, ymysg buddion eraill, llwybrau ychwanegol i ddysgwyr a mynediad at amrediad ehangach o gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg.

Yn ogystal, mae Strategaeth 3 Blynedd Llwybrau Dysgu 14-19 yn amlygu un o'r ddwy flaenoriaeth ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru sy'n ymwneud â Sir y Fflint; sef sicrhau bod y seilwaith dysgu a'r ddarpariaeth ym maes dysgu yn ddigon i ddiwallu anghenion busnesau ac unigolion sy'n ymwneud â'r sectorau croeso a thwristiaeth yn awr ac yn y dyfodol.

### **2.3.2 Trosolwg o'r drefn**

Yn Sir y Fflint, mae'r Rhwydwaith 14-19 wedi gweithio'n effeithiol i ddatblygu trefniadau ar gyfer gwireddu dyheadau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys cynrychiolwyr o blith Penaethiaid, Coleg Glannau Dyfrdwy, Gyrfa Cymru a darparwyr addysg alwedigaethol eraill. Mae'r Rhwydwaith yn cefnogi gwaith bwrdd y rhaglen ôl-16 yng nghyswllt sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae bwrdd y rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr uwch o blith darparwyr,

rhanddeiliaid a'r awdurdod lleol. Mae'r dull partneriaeth hwn wedi'i sefydlu ers nifer o flynyddoedd. Mae'r Bartneriaeth Ddysgu wedi rhoi cyfeiriad strategol cryf iawn a gweledigaeth glir i yrru'r gwaith o weithredu llwybrau dysgu ar gyfer dysgwyr 14-19 yn ei flaen.

Mae cyrhaeddiad addysgol yn Sir y Fflint yn amrywio ar draws y sir gydag enghreifftiau o gyflawniad ardderchog ac ardaloedd sy'n galw am welliannau. Ceir enghreifftiau o gydweithio rhwng ysgolion ac mae sail dda i adeiladu arni o ran mwy o gydweithio.

Ceir enghraifft o gydweithio yn natblygiad Consortiwm Glannau Dyfrdwy, sy'n cynnwys Ysgol Uwchradd Cei Connah, Ysgol Uwchradd John Summers, Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac Ysgol Uwchradd Y Fflint. Mae'r consortiwm wedi bod yn rhannu trefniant 6<sup>ed</sup> dosbarth ers cryn amser sy'n golygu bod dysgwyr yn symud rhwng canolfannau er mwyn dilyn y cyrsiau sydd orau ganddynt. Yn fwy diweddar, mae Ysgol Uwchradd Elfed, Ysgol Uwchradd Penarlâg ac Ysgol Uwchradd Castell Alun wedi bod yn cynnig nifer fach o bynciau drwy drefniant partneriaeth ac mae hwn yn faes y gellir ei ddatblygu ymhellach. Er bod Coleg Glannau Dyfrdwy yn ddarparwr mawr ym maes cyrsiau galwedigaethol, nid yw wedi'i gynnwys yn y trefniadau cydweithio ôl-16 ar gyfer AS/A2 ac mae'r datblygiad hwn yn rhan allweddol o'r cynigion trawsnewid yn yr Achos Amlinellol Strategol hwn.

Mae'r deuddeg ysgol uwchradd yn Sir y Fflint yn elfen hollbwysig o'r opsiynau sy'n cael eu trafod yn y ddogfen hon; fodd bynnag mae cysylltiadau strategol agos â Choleg Glannau Dyfrdwy hefyd. Mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn ymwneud yn weithredol â'r holl opsiynau sy'n cael eu hystyried yn yr Achos Amlinellol Strategol. Oherwydd daearyddiaeth Sir y Fflint mae'r cynigion yn yr Achos Amlinellol Strategol hwn yn trafod opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth addysgol a dysgu yn y Gogledd (sef, yn fras, y canolfannau trefol ar hyd moryd Glannau Dyfrdwy) a'r De ar wahân, ac eithrio yng nghyswllt y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Ffydd. Trafodir yr opsiynau yn fwy manwl yn yr Achos Economaidd.

### **2.3.3 Gweithgareddau presennol a rhanddeiliaid y gwasanaeth**

Mae deuddeg ysgol uwchradd yn Sir y Fflint, sef:

- Ysgol Alun yr Wyddgrug
- Ysgol Uwchradd Argoed
- Ysgol Uwchradd Castell Alun
- Ysgol Uwchradd Elfed
- Ysgol Uwchradd Y Fflint
- Ysgol Uwchradd Penarlâg
- Ysgol Uwchradd Treffynnon
- Ysgol Uwchradd Dewi Sant



- Ysgol Uwchradd Cei Connah
- Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn
- Ysgol Uwchradd John Summers
- Ysgol Maes Garmon

Mae holl Ysgolion Uwchradd Sir y Fflint yn ysgolion sy'n cynnig darpariaeth 11-18 ar wahân i Ysgol Uwchradd Argoed sy'n cynnig darpariaeth 11-16. Nodir nifer y disgyblion sydd ym mhob ysgol yn ffigur 1. Mae hwn yn dangos bod yr ysgolion mewn safle da i wasanaethu'r wardiau sydd â'r boblogaeth fwyaf o bobl ifanc 15-19 oed. (Mae'r darnau tywyll yn cynrychioli'r ardaloedd sydd â phoblogaeth ddwysach, ond sylwer bod rhai o wardiau'r gogledd yn ymestyn i foryd Glannau Dyfrdwy ac felly gall ymddangos fel pe bai dwysedd y boblogaeth wedi'i dangynrychioli yn y wardiau hynny). Mae dwy ysgol wedi cael eu henwi'n benodol yn Ffigur 1, sef:


- Ysgol Uwchradd St Richard Gwyn sy'n darparu addysg seiliedig ar ffydd ar gyfer y sir, ac
- Ysgol Maes Garmon, sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer y sir.

Ystyrir gweddill yr ysgolion fel dau grŵp er mwyn cyfateb i ddemograffeg a daearyddiaeth y sir. Mae grŵp y gogledd yn cynnwys y chwe ysgol sydd wedi'u lleoli rhwng yr A55 a'r arfordir. Mae grŵp y de yn cynnwys y pedair ysgol i'r de o'r A55.

Mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn cydweithio mewn partneriaeth agos â'r holl ysgolion uwchradd a enwyd, ac yn rhan o'r holl opsiynau sy'n cael eu hystyried yn yr achos economaidd.

Mae'r Coleg a'r Ysgolion Uwchradd i gyd yn cydweithio'n agos ag ysgol arbennig y Sir, sef Ysgol Uwchradd Maes Hyfryd. Sefydlwyd Ysgol Maes Hyfryd ym mis Medi 2009 yn sgil ad-drefnu ac adnewyddu'r holl ddarpariaeth ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae Ysgol Maes Hyfryd wedi'i chydleoli ag Ysgol Uwchradd Y Fflint.

Figur 1: Ysgolion Uwchradd yn Sir y Fflint



### 2.3.4 Rhanddeiliaid

O fewn y cynnig ar gyfer trawsnewid, mae'r rhanddeiliaid a'r darparwyr sy'n cymryd rhan (ac eithrio'r deuddeg ysgol uwchradd) i'w gweld yn y tabl isod:

**Table 2-1: Rhanddeiliaid a darparwyr allweddol**

Rhanddeiliaid Allweddol	
Cyngor Sir y Fflint	Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd
Coleg Glannau Dyfrdwy	Y Gwasanaeth Menter Gymunedol
Y Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned	Gyrfa Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru (APADGOS)	Rhwydweithiau dysgu ffydd
Rhwydwaith Ddysgu 14-19	Y Sector Gwirfoddol (MIND, SCOPE)
Y Ganolfan Cymraeg i Oedolion	Darparwyr dysgu seiliedig ar waith gan gynnwys Hyfforddiant Gogledd Cymru
Cymdeithas Llywodraethwyr Sir y Fflint	

## 2.4 Strategaethau busnes

Gellir dosbarthu'r strategaethau hyn dan yr is-benawdau canlynol:

### 2.4.1 Y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blyneddol a chyswllt â chynigion presennol y rhaglen trawsnewid

Mae Cynllun Datblygu Blyneddol Rhwydwaith 14-19 Sir y Fflint 2010-2011 yn nodi gweithgareddau a gynlluniwyd yn y meysydd canlynol:

- datblygu mwy o lwybrau dysgu unigol gan gynnwys rhai ar gyfer dysgwyr ag anghenion arbennig, dysgwyr galluog a thalentog, a'r rheiny sydd am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwneir hyn drwy gael mwy o gydweithio o fewn ac oddi allan i Sir y Fflint a thrwy ddefnyddio technoleg cysylltu-o-bell;
- darparu mwy o gyrsiau galwedigaethol ac analwedigaethol sy'n fwy hyblyg drwy gydweithio parhaus rhwng darparwyr;
- creu cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar waith i ddysgwyr mewn partneriaeth â Wrecsam a Sir Ddinbych;
- cefnogi cyflogi anogwyr dysgu ym mhob lleoliad addysg, a darparu cymorth ychwanegol i bobl agored i niwed megis Plant sy'n Derbyn Gofal;
- cefnogi dull wedi'i dargedu o ddarparu cymorth personol gyda'r nod o gyrraedd y rhai sydd mewn mwyaf o berygl o fod yn NEET; a
- darparu mwy o hyfforddiant ar gyfer athrawon a rheolwyr cwricwlwm o leoliadau Dysgu yn Sir y Fflint wrth ddatblygu a defnyddio Gyrfa Cymru ar-lein.

Mae'r gwaith trawsnewid arfaethedig a awgrymir yn yr Achos Amlinellol Strategol hwn yn cefnogi'r mentrau hyn ac, yn benodol, yn annog cydweithio er mwyn diwallu anghenion dysgu Sir y Fflint a thargedu gwasanaethau ar gyfer myfyrwyr agored i niwed neu'r myfyrwyr hynny sydd fwyaf anghenus. Un o gynigion sylfaenol y ddogfen hon yw bod angen cryfhau cydweithio rhwng ysgolion uwchradd i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r gweithgareddau uchod. Byddai hyn hefyd yn lleihau dyblygu diangen mewn darpariaeth, yn sicrhau llai o ddogfensiadau bach ac yn creu amserlenni wedi'u rhannu lle bo hynny'n briodol. Yn ogystal â'r buddion a'r cyfleoedd a nodwyd hyd yma, mae'r cynnig yn gyfle i archwilio'r strwythurau (rheoli) dysgu presennol a chryfhau'r defnydd o dechnoleg yng nghyswllt cyflwyno addysg ôl-16.

Yn ogystal, nid yw'r datblygiadau yn y ddarpariaeth 14-19 yn rhywbeth ar wahân. Maent yn gysylltiedig ag amryw o sectorau dysgu eraill, mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru a blaenoriaethau cymunedol. Mae'r cysylltiadau ehangach hyn yn rhan o agenda trawsnewid llawer ehangach na Llwybrau Dysgu 14-19 yn unig.

#### **2.4.2 Strategaeth Buddsoddi mewn Ysgolion**

Mae cynnal a gwella safon ysgolion yn bwysig o ran galluogi'r cyngor i wireddu dyheadau dysgwyr a chydabuwyd bod angen buddsoddi cyfalaf i sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau i ddiwallu anghenion dysgu ac addysgu yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif.

Mae buddsoddiad sylweddol wedi'i fwriadu ar gyfer ysgolion Sir y Fflint yn nhermau codi adeiladau newydd ac ailwampio'r stad ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas, er nad trwy fuddsoddiad trawsnewid y cyflawnir hyn i gyd. Mae'r buddsoddiad arfaethedig yn cael ei ariannu drwy grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, derbyniadau cyfalaf a chyllid mewnol y cyngor ynghyd â benthyca darbodus.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llunio Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ac mae'r Cyngor yn derbyn y bydd yn rhaid i unrhyw ysgol uwchradd newydd fod yn ddigon mawr i dderbyn pedwar dosbarth y flwyddyn gan ddarparu lle i 600 o ddisgyblion 11-16 oed. Wrth ystyried hyn ochr yn ochr â chapasiti presennol ysgolion ar gyfer dysgwyr 11-16 oed, ymddengys bod angen ad-drefnu i fodloni'r maen prawf hwn. Mae'r strategaeth yn ei gwneud yn glir y gallai unrhyw ysgol sydd â llai na 600 o ddisgyblion (11-16) am dair blynedd ar ôl ei gilydd fod yn destun adolygiad gan yr awdurdod. Ar gyfer y grŵp oedran 16-18 oed, pennwyd trothwy o 120 disgybl am gyfnod o dair blynedd ar ôl ei gilydd.

Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod y bydd cynnal a chadw nifer fawr o adeiladau ysgolion sy'n heneiddio (mae rhai yn Sir y Fflint dros 60 mlwydd oed) a'r seilwaith cysylltiedig yn effeithio ar y gwariant cyfalaf. Gellid gwneud defnydd mwy effeithiol o'r rhaglen gyfalaf gyfyngedig drwy ad-drefnu adeiladau ysgolion a/neu adeiladau eraill y cyngor; byddai hyn hefyd yn rhyddhau arbedion refeniw drwy leihau nifer y rhaglenni cynnal a chadw sy'n aros i gael eu rhoi ar waith.

Nid yw'r opsiynau penodol ar gyfer ad-drefnu wedi eu cynnwys yn yr Achos Amlinellol Strategol hwn. Caiff y rhain eu llunio ar y cam Achos Busnes Amlinellol pan fydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ymysg ysgolion wedi datblygu a phan fydd modd cynllunio'r broses ymgynghori. Mae'n amlwg fod partneriaid yn sylweddoli bod angen sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy gydweithio ac ad-drefnu.

#### **2.4.3 TGCh**

Mae pwyslais cryf wedi bod ers tro ar ddefnyddio TGCh wrth ddarparu addysg yn Sir y Fflint. Rhoddwyd trefniadau ar waith dros nifer o flynyddoedd i gyfarparu pob Ysgol Uwchradd a Choleg Glannau Dyfrdwy â stiwdio Cynhadledd Fideo gyflawn. Gofynnwyd i'r ysgolion ym mhob consortiwm ystyried defnyddio'r galedwedd i gyflwyno rhai elfennau o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae angen datblygu hyn. Y defnydd mwyaf llwyddiannus a wnaed o'r offer oedd rhwng tair ysgol i gyflwyno'r Iaith Gymraeg yn y cyfnod ôl-16.

Mae Amgylcheddau Rhith-ddysgu hefyd yn cael eu defnyddio fel mater o drefn. Mae gan bob ysgol uwchradd Amgylchedd Rhith-ddysgu Moodle sy'n cael ei gynnal a'i gadw drwy gyllid gan y Rhwydwaith 14-19. Mae canolfan hefyd ar gael lle gall ysgolion rannu adnoddau. Mae'r prosiectau wedi cynnwys creu adnoddau e-ddysgu i ddarparu cynnwys digidol yn y ganolfan hon. Bwriedir i ysgolion gyfrannu mwy o adnoddau dros gyfnod o amser. Mae pob ysgol ar gam gwahanol yn eu datblygiad yng nghyswllt defnyddio Moodle sy'n amrywio o fod prin wedi'i ddefnyddio i fod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau'r ysgol. Mae'r gallu i ddefnyddio'r Amgylchedd Rhith-ddysgu ar y cyd yn cael ei feithrin ar hyn bryd wrth i'r ysgolion a'r athrawon eu hunain ddod yn fwy hyderus o ran deall yr hyn sydd gan yr Amgylchedd Rhith-ddysgu i'w gynnig iddynt.

Ar hyd a lled Gogledd Cymru, mae'r holl Rwydweithiau 14-19 wrthi'n creu adnoddau digidol dwyieithog y bydd pob ysgol yn gallu eu rhannu drwy gyfrwng Moodle. Disgwylir i'r rhain, ac adnoddau eraill sydd wedi'u creu gan AALI yn y gorffennol, gael eu rhannu â'r holl bartneriaid dysgu trwy ganolfan Moodle newydd sy'n cael ei datblygu gyda chydweithwyr yn Wrecsam a Cynnal.

Gobaith Rhwydweithiau 14-19 Sir y Fflint a Wrecsam yn y lle cyntaf yw treialu Rhwydweithio Moodle yn y ddau awdurdod. Byddai hyn yn golygu y byddai modd defnyddio adnoddau ysgolion eraill oddi allan i'r AALI cartref.

#### **2.4.4 Ysgolion Bro**

Mae parhau i ddatblygu ysgolion bro yn elfen annatod o Strategaeth Moderneiddio Ysgolion gymeradwy'r Cyngor Sir. Bydd ysgolion a darparwyr dysgu eraill yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sydd wedi'u cynllunio'n dda, ar gyfer teuluoedd. Bydd ganddynt rôl bwysig i'w chwarae yng nghyswllt hyrwyddo cydlyniant cymunedol, lles, cynhwysiant ac amrywiaeth. Bydd y rhaglenni moderneiddio yn darparu amgylcheddau dysgu o safon uchel. Byddwn hefyd yn gwneud ein gorau i ddarparu'r isod wrth ailwampio ysgolion ac mewn adeiladau newydd:

- adeiladau a thir sy'n ddiogel ac yn groesawus i'r ysgol a'r gymuned ac sy'n cynnig mynediad a diogelwch addas ar yr un pryd;
- manau allanol sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n cynnig amrywiaeth o wahanol leoliadau ar gyfer hamdden, dysgu a chwaraeon; a
- defnyddio'r safle yn effeithiol gan gryfhau presenoldeb a swyddogaeth yr ysgol yn y gymuned.

Mae'r nod i wneud ysgolion yn 'ganolfan' ar gyfer amrediad o wasanaethau cymunedol wedi'i adlewyrchu yng nghwmpas busnes ac amcanion buddsoddi'r cynigion hyn, ac maent hefyd yn ganolog i Strategaeth Rheoli Asedau'r awdurdod lleol. Mae'r gwaith hwn wrth wraidd rhaglen "Dyfodol Sir y

Fflint" y cyngor; mae'r rhaglen yn amlinellu dulliau gweithredu trawsnewidiol yng nghyswllt gwasanaeth i gwsmeriaid, mynediad a lleihau ôl troed adeiladau'r sector cyhoeddus drwy gyfleoli gwasanaethau.

#### **2.4.5 Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

Mae cyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr ifanc a thrwy hynny eu dwyieithrwydd yn elfen bwysig o'r gwaith yn ysgolion Sir y Fflint. Ceir un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint, sef Ysgol Maes Garmon, ac mae galw cynyddol ar yr ysgol hon yng nghyswllt ysgolion cynradd a throsglwyddo o ysgolion cyfrwng Saesneg ym mlwyddyn 7.

Mae Ysgol Maes Garmon wedi'i lleoli yn Yr Wyddgrug ac, o ganlyniad, mae rhai o'r myfyrwyr sy'n mynychu'r ysgol hon yn gorfod teithio cryn dipyn i ymgymryd â'u dysgu. O gofio hyn, mae'r awdurdod yn credu ei bod yn bwysig bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael drwy nifer o strategaethau sy'n galw am gydweithio â darparwyr yn Sir y Fflint ac am weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill mewn awdurdodau eraill ledled Gogledd Cymru. Wrth ddatblygu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint, bydd ymwneud â fforwm Gogledd Ddwyrain Cymru yn ganolog i'r strategaeth o ran cynyddu'r dewis o bynciau er mwyn bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau. Efallai y gellid sicrhau hyn drwy ehangu e-ddysgu a thrwy wneud mwy o ddefnydd o gynadleddau fideo, gan adeiladu ar y rhaglenni peilot a gynhaliwyd gan rwydweithiau Sir y Fflint a Wrecsam.

I gloi, derbynnir y caiff y ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg ei hadolygu fel rhan o gyd-ddibyniaethau rhanbarthol ac isranbarthol ac na fydd yn rhan o'r gwerthusiad o ddarpariaeth ôl-16 mewn gwerthusiad sydd wedi'i seilio ar ardaloedd daearyddol. Caiff cynlluniau eu datblygu a'u rhoi ar waith yn unol ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol arfaethedig ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei llunio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar arferion arloesol presennol ym maes dysgu o bell a darparu cyfleoedd dysgu ar y cyd. Bydd hefyd yn gyrru datblygiadau cysylltiedig â'r cynnig trawsnewid ar wahân i uno Coleg Llysfasi a Choleg Glannau Dyfrdwy yn eu blaenau. Ceir mwy o fanylion yn y cynllun 3 blynedd yn atodiad B.

#### **2.4.6 Darpariaeth Ffydd**

Yn yr un modd â'r ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg, mae'r ddarpariaeth ffydd yn Sir y Fflint yn cael ei chynnig gan un ysgol, sef Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn.

Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi darpariaeth ffydd fel rhan o'r gymuned ysgolion leol. Mae'n cefnogi ymdrechion yr awdurdodau esgobaethol yn y rhanbarth i gydweithio'n agosach â'i gilydd ym maes darpariaeth addysg, er mwyn cefnogi dysgwyr ym mhob lleoliad. Rhaid cynllunio'r ddarpariaeth i fod yn gynaliadwy, o safon uchel a chyda cwricwlwm digon eang i fod yn addas ar gyfer dyheadau ac anghenion dysgwyr, yn yr un modd â darparwyr eraill.

Mae awdurdodau esgobaethol yn llunio Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft ar gyfer ymdrin â darpariaeth ffydd is-ranbarthol. Mae hyn eto i'w drafod â'r awdurdod lleol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn nad oes polisi ynglŷn â darpariaeth ffydd ac, at ddibenion yr Achos Amlinellol Strategol hwn, derbynnir y bydd yn rhaid ymdrin â darpariaeth ffydd ar raddfa ehangach ac, am y rheswm hwn, ni roddwyd sylw manwl i hyn yn y gwerthusiad o opsiynau yn yr Achos Economaidd. Yn y cyfamser, mae St Richard Gwyn wedi bod yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith o lunio Strategaeth Trawsnewid Sir y Fflint fel aelod llawn o'r gymuned ysgolion leol.

#### **2.4.7 Adfywio a Datblygu Economaidd**

Mae Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint yn cydnabod bod addysg a sgiliau yn hanfodol i gynnal ffyniant economaidd Sir y Fflint. Gwelwyd y cyfraddau cyflogaeth uchaf yng Nghymru yn Sir y Fflint. Serch hynny, mae darparwyr addysg yn sylweddoli bod mwy o waith i'w wneud yng nghyswllt cyfateb anghenion sgiliau a chyflogaeth i gyfleoedd hyfforddi.

Mae'r strategaeth trawsnewid yn rhoi sylw sylweddol i ddarparu addysg alwedigaethol ac analwedigaethol sy'n cyfrannu at un o brif themâu (Gwneud Cymru'n Wlad sy'n Dysgu) y cynllun datblygu economaidd cenedlaethol 'Cymru'n Ennill' drwy:

- **wella safonau cyrhaeddiad a chyflawniad;**
- **cryfhau sgiliau'r gweithlu a manteisio ar botensial ein poblogaeth amrywiol;**
- **chwalu'r rhwystrau i ddysgu a hybu mwy o fynediad at addysg;**
- **datblygu cyrsiau sydd fwyaf addas ar gyfer diwydiant lleol;**
- **creu cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu i oedolion; a**
- **darparu cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb.**

Mae'r dirywiad economaidd presennol yn ategu'r angen i gael dysgwyr annibynnol sy'n meddu ar sgiliau trosglwyddadwy y gellir eu defnyddio mewn unrhyw weithle. Mae heriau cymdeithasol ac economaidd sylweddol hefyd mewn rhai ardaloedd yn Sir y Fflint. Mae strategaethau hyfforddi ac addysg, ochr yn ochr â rhaglenni adnewyddu tai ac adfywio Glannau Dyfrdwy, yn ddulliau allweddol i adfywio amodau economaidd a chymdeithasol rhai cymunedau allweddol yn Sir y Fflint. Ceir mwy o fanylion yn Strategaeth 3 blynedd Llwybrau Dysgu 14-19 yn atodiad B ac yn Strategaeth Gymunedol<sup>2</sup> newydd y bwrdd gwasanaethau lleol.

---

<sup>2</sup> Mae copi o'r strategaeth i'w gweld yn:

<http://www.flintshire.gov.uk/wps/wcm/connect/6a6da48042c70b9c9195dbac9ecda303/Community+Strategy+2009+-+2019.pdf?MOD=AJPERES&Community%20Strategy%202009%20-%202019>



#### 2.4.8 Cynllun Gofodol

Mae Gogledd Ddwyrain Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i economi Cymru ac i economi'r DU. Mae cysylltiad agos rhwng ffyniant yr Ardal hon yn y dyfodol a ffyniant Gogledd Orllewin Lloegr, a Gorllewin Swydd Gaer yn arbennig, yn ogystal â Chanolbarth Cymru a Gogledd Orllewin Cymru, sef Ardaloedd cyfagos y Cynllun Gofodol. Dyma elfennau sy'n allweddol i wireddu'r weledigaeth ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru:

- Cryfhau canolfannau allweddol fel canolbwynt ar gyfer buddsoddi mewn cyflogaeth, tai, manwerthu a gwasanaethau yn y dyfodol, gan greu cymunedau cynaliadwy a chadarn oddi allan i'r prif ganolfannau a gwella mynediad rhwng canolfannau.
- Gwella ansawdd ac amrywiaeth yr economi.
- Datblygu sgiliau ac addysg y gweithlu presennol a phosibl er mwyn hwyluso mynediad at gyfleoedd gwaith da a diwallu anghenion cyflogwyr lleol.
- Hybu datblygiad cynaliadwy, sydd wrth galon y strategaeth, er mwyn gwarchod a gwella treftadaeth yr ardal ac ymateb i newid yn yr hinsawdd.

Mae'r cynigion yn yr Achos Amlinellol Strategol yn canolbwyntio ar ddatblygu llwybrau 14-19 ar gyfer dysgwyr yn Sir y Fflint ond maent hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y trydydd o'r elfennau hyn ac yn anuniongyrchol at elfennau eraill.

#### 2.5 Rhan B: Yr achos dros newid

Cydnabuwyd, er bod tystiolaeth o gydweithio llwyddiannus rhwng rhai o'r ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint, mae angen ailedrych ar y ddarpariaeth addysg ôl-16 i sicrhau model cyflenwi effeithlon sy'n gynaliadwy ac sy'n gwella canlyniadau'n gyffredinol. Dyma rai o fuddion penodol rhaglen trawsnewid:

- gwella lefelau cyflawniad pob dysgwr, gan gynnwys rhai o grwpiau agored i niwed;
- darparu dewis ehangach, cyfoethocach a mwy hyblyg o lwybrau dysgu er mwyn annog cysylltiad ehangach;
- hyrwyddo dysgu fel proses gydol oes a chwalu'r rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag manteisio ar gyfleoedd dysgu;
- datblygu dysgwyr annibynnol, hyderus ac effeithiol sy'n mwynhau ymdeimlad cadarnhaol o les, sy'n eu galluogi i rannu eu dysgu ag eraill ac i gyfrannu at eu cymuned a'u cymdeithas;
- darparu amgylcheddau dysgu priodol trwy ddatblygu safleoedd;
- hybu'r cysyniad o "ysgolion bro" fel strategaeth ar gyfer gwella dysgu a chydlyniant cymdeithasol;
- sicrhau ymrwymiad rhieni/gofalwyr fel addysgwyr cyntaf a chyd-addysgwyr eu plant;
- hyrwyddo cydweithrediad rhwng gwasanaethau, canolfannau dysgu ac ysgolion i greu diwylliant o rannu cyfrifoldeb am gynnydd pob dysgwr;



- darparu llwybrau dysgu effeithiol ac effeithlon drwy leihau lleoedd gwag mewn dosbarthiadau;
- cyflwyno gwasanaethau mewn modd effeithlon drwy leihau costau cynnal a chadw;
- ystyried daearyddiaeth Sir y Fflint a darparu lleoliadau priodol;
- cynorthwyo a datblygu pob ymarferwr yn ei ymdrechion i wella cyflawniad pob dysgwr; a
- sicrhau bod digon o ddarpariaeth o safon uchel ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac ar gyfer cymunedau ffydd.

Fel y dangosir ymhellach ymlaen yn yr achos economaidd, er bod y trefniadau presennol ar gyfer cysgwyr ôl-16 o safon uchel ac wedi hen ennill eu plwyf, nid ydynt yn bodloni targedau cwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru nac yn diwallu anghenio dysgwyr yn y dyfodol.

## 2.6 Amcanion buddsoddi:

Dangosir amcanion buddsoddi'r prosiect yn y tablau isod:

**Table 2-2: Targedau, mesurau ac amcanion buddsoddi**

Amcan Buddsoddi	Mesur	Targed
1 Gwella safonau cyflawniad addysg ôl-16 a ddarperir ar hyn o bryd yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint, wedi'u mesur yn ôl canlyniadau disgyblion ac adroddiadau arolygu Estyn.	Lefel cymwysterau dysgwyr Sir y Fflint.	Dim un disgybl i adael addysg amser llawn heb gymhwyster cymeradwy erbyn 2014 Sicrhau bod 100% o leoliadau dysgu yn bodloni gofynion y mesur dysgu a sgiliau.
	Lefel cyfranogiad a phresenoldeb trigolion Sir y Fflint	95% o ddisgyblion i fod mewn Addysg, Gwaith a Hyfforddiant erbyn 2014
	Faint o groesi ffiniau i awdurdodau cyfagos i gael addysg a geir	Lleihau'r gyfran o ddysgwyr yn Sir y Fflint sy'n defnyddio ysgolion awdurdod cyfagos i 0% erbyn 2014
	Canlyniadau adroddiadau arolygu Estyn	100% o ysgolion i gael eu barnu'n dda neu'n well erbyn 2016.
2 Sicrhau bod cyfran gynyddol o bobl ag Anghenion Addysgol Arbennig neu anabledau a rhai o deuluoedd agored i niwed yn manteisio ar addysg ôl-16.	Faint o'r rhai yn y categorïau canlynol sy'n cwblhau cyrsiau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• Dysgwyr sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim</li> <li>• Anghenion Dysgu Ychwanegol</li> <li>• Anabledau Corfforol</li> </ul>	Dim unigolion yn y categorïau isod i adael addysg amser llawn heb gymhwyster cymeradwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• Dysgwyr sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim</li> <li>• ADY</li> <li>• Anabledd corfforol</li> </ul>
3 Sicrhau y cyflwynir darpariaeth addysgol berthnasol mewn modd sy'n bodloni anghenion lles ehangach ein pobl ifanc, eu rhieni / gofawyr a'u cymunedau.	Lefelau ymgysylltiad yr ysgol a'r dysgwyr â'r gymuned	90% o ymgeiswyr Bagloriaeth Cymru yn cwblhau'r cwrs erbyn 2014
	Darpariaeth addysg anacademaidd / analwedigaethol sy'n hybu cydlyniant cymdeithasol, byw yn iach ayyb a phresenoldeb ar gyrsiau o'r fath.	Pob dysgwr i gymryd rhan mewn rhaglenni addysg gymdeithasol a phersonol mewn ysgolion
	Ansawdd yr Wybodaeth, y Cyngor a'r Arweiniad Lefel y cymorth gan Anogwyr Dysgu. Cryfhau ymgysylltiad â rhieni, teuluoedd a gofawyr ayyb	Pob disgybl i gael y cyfle i gael cyfweiliad Arweiniad a Chyngor erbyn 2014 Anogwr dysgu penodedig a chymorth dysgu i fod ar gael i bob disgybl erbyn 2012

		Cryfhau ymgysylltiad rhieni â nosweithiau agored a nosweithiau dewisiadau 10%
4 Sicrhau bod y cyrsiau ôl-16 o safon a fynnir gan ein myfyrwyr, cyflogwyr lleol, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu darparu'n effeithlon.	Lleihau nifer y lleoedd gwag yn y ddarpariaeth addysgol yn Sir y Fflint	Lleihau nifer y lleoedd gwag o 12.5% i lai na 10% erbyn 2014
	Cryfhau gallu dysgwyr i gael gwaith neu addysg uwch yn dilyn ymgysylltiad ag ysgolion Sir y Fflint.	Cyfran y disgyblion sydd wedi eu dosbarthu yn NEET i fod yn llai na 5% erbyn 2014
	Darpariaeth alwedigaethol a hyfforddiant mewn sectorau allweddol	100% o ganolfannau dysgu i fodloni elfen alwedigaethol y mesur Dysgu a Sgiliau. Ychwanegu mwy o lwybrau galwedigaethol (yn unol â LICC – Aseidiadau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol) o flwyddyn i flwyddyn.
5 Sicrhau y cyflwynir darpariaeth addysgol ôl-16 mewn modd sy'n bodloni dyheadau amgylcheddol ein trigolion, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac arferion gorau / canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.	Lefel amser teithio dysgwyr ac athrawon	Ni ddylai fod ar unrhyw ddisgybl angen teithio mwy na 45 munud bob ffordd.
	Nifer y siwrneiau mewn ceir a maint y llygredd aer cysylltiedig	Cyfran y myfyrwyr sy'n defnyddio cerbydau preifat er mwyn mynychu addysg ôl-16 i fod yn llai na 25% erbyn 2014.
	Cyfyngu ar lefel y tagfeydd y gellir eu priodoli i addysg	Dileu cwynion ynghylch parcio ar y ffordd yn yr ardal leol erbyn 2014.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y mesurir y sefyllfa bresennol yn erbyn yr amcanion buddsoddi ac felly'r angen busnes am y prosiect hwn.

**Tabl 2-3: Amcanion buddsoddi, y sefyllfa bresennol a'r angen busnes**

Amcan Buddsoddi	Sefyllfa Bresennol	Angen Busnes
3 Gwella safon yr addysg ôl-16 a ddarperir ar hyn o bryd yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint, wedi'u mesur yn ôl canlyniadau disgyblion ac adroddiadau arolygu Estyn.	Yng nghyswllt dysgwyr 17 oed sydd ar gofrestrau ysgolion Sir y Fflint ym mis Ionawr 2009: <ul style="list-style-type: none"> <li>• llwyddodd 96% o ddygwyr Sir y Fflint i gyrraedd y trothwy Lefel 3, o'i gymharu â 96% ar draws Cymru</li> <li>• Y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach ar gyfer dysgwyr Sir y Fflint oedd 615, o'i gymharu â</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella perfformiad dysgwyr Sir y Fflint i fod cystal neu'n well na pherfformiad Cymru</li> <li>• Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu dewis o'r amrywiaeth ehangaf posibl o gyrsgiau, ar y lefel briodol, a bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau.</li> <li>• Arolygiadau ardal ac arolygiadau o sefydliadau unigol ym maes darpariaeth 14-19 i gael sgôr un ai da neu</li> </ul>

	688 ar draws Cymru	ardderchog gan Estyn ym mhob achos
4 Sicrhau bod cyfran gynyddol o bobl ag anghenion arbennig (addysgol neu anabledd) ac unigolion o deuluoedd agored i niwed yn manteisio ar addysg ôl-16.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae darpariaeth ôl-16 mewn Ysgol Arbennig newydd yn ei blwyddyn weithredol gyntaf</li> <li>Mae gan Goleg Glannau Dyfrdwy (yn y ddau safle) amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau Lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2, yn ogystal â Lefel 3.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ehangu'r hyn sydd ar gael yn y cwricwlwm i ddiwallu anghenion pob dysgwr</li> <li>Sicrhau bod yr hyn mae'r cwricwlwm yn ei gynnig yn briodol o safbwynt lefel yn ogystal â lled</li> <li>Mwy o weithio mewn partneriaeth a datblygu Annog Dysgu, Cymorth Personol ac Arweiniad a Chyngor Gyrfa annibynnol er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr well gwybodaeth am gyfleoedd.</li> </ul>
3 Sicrhau y cyflwynir y ddarpariaeth addysgol berthnasol mewn modd sy'n bodloni anghenion lles ehangach ein pobl ifanc, eu rhieni / gofawyr a'n cymunedau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyfleoedd ôl-16 yn Sir y Fflint ar gael mewn 11 Ysgol Uwchradd (gan gynnwys un lleoliad Cyfrwng Cymraeg ac un lleoliad Ffydd) ac yn nau safle Coleg Glannau Dyfrdwy.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio model darpariaeth sy'n ategu'r egwyddorion a gytunwyd ym mharagraff 1.3.1</li> </ul>
4 Sicrhau bod y cyrsiau ôl-16 o safon a fynir gan ein myfyrwyr, cyflogwyr lleol, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu darparu'n effeithlon.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyfleoedd ôl-16 yn Sir y Fflint ar gael mewn 11 Ysgol Uwchradd (gan gynnwys un lleoliad Cyfrwng Cymraeg ac un lleoliad Ffydd) ac yn y ddau safle yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy.</li> <li>Mae gan Goleg Glannau Dyfrdwy (yn y ddau safle) amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau Lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2, yn ogystal â Lefel 3.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu dewis o'r amrywiaeth ehangaf posibl o gyrsiau, ar y lefel briodol, sy'n bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau, gan sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr a bodloni'r egwyddorion a nodwyd yn 1.3.1 mewn modd effeithlon ar yr un pryd.</li> <li>Sicrhau bod pob lleoliad ôl-16 sy'n cynnig cyrsiau Lefel tri yn llwyddo i gael cyfraddau llwyddiant cystal neu well na Chymru.</li> <li>Arolygiadau ardal ac arolygiadau o sefydliadau unigol ym maes darpariaeth 14-19 i gael sgôr un ai da neu ardderchog gan Estyn ym mhob</li> </ul>

		achos
<p>5 Sicrhau y cyflwynir y ddarpariaeth addysgol ôl-16 mewn modd sy'n bodloni dyheadau amgylcheddol ein trigolion, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac arferion gorau / canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid cludo dysgwyr yn ôl ac ymlaen i'r canolfannau dan y ddarpariaeth bresennol. Gallai mwy o gydweithio gynyddu'r galw o ran teithio yng nghyswllt y dysgwyr.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu dewis o'r amrywiaeth ehangaf posibl o gyrsiau, ar y lefel briodol, a bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau gan osgoi gormod o deithio i ddysgwyr o ran pellter ac amledd ar yr un pryd.</li> <li>Sicrhau tegwch o ran hawl i deithio ym mhob rhan o'r sir.</li> <li>Lleihau costau darparu cludiant gymaint â phosibl, a lleddfu'r angen i ddefnyddio car preifat ar yr un pryd, a thrwy hynny, osgoi tagfeydd traffig a pharcio yng nghyffiniau safleoedd addysgol.</li> </ul>

## 2.7 Y Trefniadau Presennol

Mae'r cyngor yn ceisio cyflawni'r amcanion buddsoddi drwy fwy o gydweithio o fewn a rhwng ysgolion a Choleg Glannau Dyfrdwy, ynghyd â datgomisiynu darpariaeth ddiangen. Mae'r rhan hon o'r Achos Amlinellol Strategol yn disgrifio'r trefniadau presennol yng nghyswllt staff, nifer y disgyblion a chyllidebau.

### 2.7.1 Niferoedd staff

Nifer y staff sydd ym mhob ysgol uwchradd

**Tabl 2-4: Nifer y staff yn y deuddeg ysgol uwchradd 2009**

Ysgol	Pennaeth	Dirprwy Bennaeth	Pennaeth Cynorthwyol	Athrawon (Cyfwerth ag amser llawn)
Ysgol Uwchradd Alun	1	1	3	101.6
Ysgol Uwchradd Argoed	1		3	31.3
Ysgol Uwchradd Castell Alun	1	2	3	71.6
Ysgol Uwchradd Cei Connah	1	2	3	57.5
Ysgol Uwchradd Elfed	1	1	1	43.5
Ysgol Uwchradd Y Fflint	1		2	34.4
Ysgol Uwchradd Penarlâg	1	1	3	62.2
Ysgol Uwchradd Treffynnon	1		3	43.0
Ysgol Uwchradd John Summers	1	1	2	28.6
Ysgol Uwchradd Dewi Sant	1	1	1	33.6
St Richard Gwyn	1	1	3	49.7
Ysgol Maes Garmon	1	1	2	37.8

**Ffynhonnell: Secondary Leadership as at 19.05.10.xls**

### 2.7.2 Nifer y disgyblion

Mae nifer y disgyblion ym mis Medi 2009 a'r rhagamcanion ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, fesul dwy flynedd, i'w gweld yn Nhabl 2-5 isod.

**Tabl 2-5: Nifer y disgyblion yn y deuddeg ysgol uwchradd**

Ysgol	Nifer y disgyblion	Cymhareb disgybl/athro	Nifer y disgyblion chweched dosbarth	Rhagamcanion yr ALL ar gyfer pob ysgol		
				Medi 2009	Medi 2010	Medi 2012
Ysgol Uwchradd Alun	1723	<b>17:1</b>	534	530	506	494
Ysgol Uwchradd Argoed	564	<b>18:1</b>	AMH	AMH	AMH	AMH
Ysgol Uwchradd Castell Alun	1230	<b>17:1</b>	136	136	213	214
Ysgol Uwchradd Cei Connah	1059	<b>18:1</b>	100	96	101	97
Ysgol Uwchradd Elfed	742	<b>17:1</b>	95	87	101	85
Ysgol Uwchradd Y Fflint	674	<b>20:1</b>	79	77	66	67
Ysgol Uwchradd Penarlâg	1091	<b>18:1</b>	178	166	172	184
Ysgol Uwchradd Treffynnon	766	<b>18:1</b>	94	96	94	81
Ysgol Uwchradd John Summers	451	<b>16:1</b>	70	63	38	36
Ysgol Uwchradd Dewi Sant	620	<b>18:1</b>	78	68	73	66

St Richard Gwyn	938	<b>19:1</b>	127	120	121	126
Ysgol Maes Garmon	549	<b>15:1</b>	81	79	76	84

**Ffynhonnell: Amrywiol**

- *Cyfanswm y Disgyblion – FSM SJ10 May2010.xls, tab “FSMT”*
- *Cymhareb disgybl : athro – Cyfrifiad mewnol wedi'i seilio ar dabl 1-4 a thabl 1-5*
- *6<sup>th</sup> Form pupils 2009 and projections – Secondary forecasts with compare stats.xls*

### 2.7.3 Lleoedd gwag

Nodir y lleoedd gwag yn y deuddeg ysgol uwchradd yn y tabl isod:

**Tabl 2-6: Lleoedd gwag ym mis Medi 2009**

Ysgol	Disgyblion (Medi 2009)	Lleoedd gwag	Lleoedd gwag (%)
Ysgol Uwchradd Alun	1723	33	2%
Ysgol Uwchradd Argoed	564	1	<1%
Ysgol Uwchradd Castell Alun	1230	5	<1%
Ysgol Uwchradd Cei Connah	1059	88	8%
Ysgol Uwchradd Elfed	742	318	31%
Ysgol Uwchradd Y Fflint	674	96	12%
Ysgol Uwchradd Penarlâg	1091	37	3%
Ysgol Uwchradd Treffynnon	766	350	33%
Ysgol Uwchradd John Summers	451	125	22%
Ysgol Uwchradd Dewi Sant	620	46	6%
St Richard Gwyn	938	61	7%
Ysgol Maes Garmon	549	65	23%

**Ffynhonnell: Disgyblion fel yn y tablau uchod, lleoedd gwag ym mis Medi 2009**



## 2.8 Anghenion busnes

Yn yr adran hon ceir adroddiad manwl ar y problemau, yr anawsterau a'r bylchau mewn gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trefniadau presennol o ran anghenion yn y dyfodol. Ymdriniwyd â'r sefyllfa bresennol yng nghyswllt yr amcanion buddsoddi ac felly'r anghenion busnes yn Nhabl 2-3. Ceir crynodeb o'r problemau gyda'r trefniadau presennol yn y tabl isod.

**Tabl 2-7: Problemau gyda'r trefniadau presennol**

Problemau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau presennol	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gallu i gynnig digon o ddewisiadau i fodloni'r mesur dysgu a sgiliau</li> <li>• Mae maint y carfannau yn rhai ysgolion yn golygu nad yw'r lefelau incwm yn gynaliadwy</li> <li>• Mae rhai o'r ysgolion angen eu hailwampio / uwchraddio'n sylweddol</li> <li>• Mae teithio o ganolfan i ganolfan hefyd yn achosi problemau o ran tagfeydd ac amser teithio i ddysgwyr.</li> <li>• Nid yw'r ddarpariaeth Gymraeg yn gynaliadwy yn ei ffurf bresennol a byddai'n rhaid cydweithio ag ysgolion eraill yr awdurdod</li> <li>• Mae'r lleoedd gwag yn amrywio o &lt;1-33% ar draws yr ysgolion sy'n dangos bod cryn wahaniaeth yn y sir ac mae angen mynd i'r afael â hyn drwy gydweithio ac ad-drefnu.</li> </ul>	

## 2.9 Cwmpas busnes posibl a gofynion gwasanaeth allweddol

Mae'r adran hon yn disgrifio cwmpas busnes posibl a gofynion gwasanaeth allweddol y prosiect yng nghyswllt yr anghenion busnes uchod. Mae'r cwmpas busnes a'r gofynion gwasanaeth a nodir yn y tablau canlynol yn darparu'r ystodau y caiff opsiynau eu hystyried ynddynt yn yr Achos Economaidd. Bydd y mentrau arfaethedig sydd wedi'u nodi a'u rhoi ar y rhestr fer yn y ddogfen hon yn ceisio rhoi sylw i'r gofynion hyn i gyd.

Ar y cam hwn mae 'craidd' yn dynodi'r 'pethau y mae'n rhaid i ni eu cael'; 'dymunol' yn dynodi'r 'pethau rydym yn barod i'w hystyried ar sail cost a budd'; a 'dewisol' yn dynodi'r 'pethau efallai y byddwn yn eu derbyn cyn belled â bod eu cost yn eithriadol o isel'.

**Tabl 2-8: Cwmpas a gofynion addysgol**

Cwmpas	
<b>Craidd (lleiaf)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefn newydd ar gyfer staff addysgu</li> <li>• Ailhyfforddi athrawon a staff</li> <li>• Trefn newydd o reoli ysgolion</li> <li>• Trefn newydd o safbwynt ysgolion</li> <li>• Digon o adnoddau cwricwlwm ym mhob ardal</li> <li>• Strwythur newydd o safbwynt llywodraethu ysgolion</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystyried trefniadau cyllido newydd ar gyfer ysgolion sy'n seiliedig ar newid niferoedd disgyblion</li> <li>• Sefydlu trefniadau newydd ar gyfer cludo disgyblion i ddsbarthiadau yn ystod y diwrnod ysgol</li> <li>• Digon o gyfleusterau ar gyfer unigolion ag anabledau corfforol</li> <li>• Digon o gyfleusterau ar gyfer unigolion ag Anghenion Addysgol Arbennig</li> <li>• Digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a ffydd</li> </ul>
Dymunol (canolradd)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltiadau trafndiaeth cwbl integredig</li> <li>• Cyfleusterau ar gyfer dysgu ar ôl ysgol a dysgu cymunedol</li> <li>• Sefydlu cysylltiadau â'r gymuned fusnes</li> <li>• Aelodau'r gymuned yn defnyddio llyfrgell yr ysgol</li> <li>• Y gymuned yn defnyddio'r cyfleusterau chwaraeon</li> </ul>
Dewisol (mwyaf)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Buddsoddi mewn cyfleusterau AAA cwbl gynhwysol ym mhob ysgol</li> <li>• Darparu neuadd gymunedol ym mhob ysgol</li> <li>• Darparu ystod o gyfleusterau chwaraeon ar gyfer y gymuned ym mhob ysgol</li> <li>• Adnoddau TG y gall y gymuned eu defnyddio</li> <li>• Cyfleusterau crèche y gall y gymuned eu defnyddio</li> <li>• Sylfaen adnoddau i gefnogi a datblygu cymuned wledig</li> <li>• Gwasanaeth cwbl integredig i blant yn yr ysgol</li> </ul>

Tabl 2-9: Gofynion gwasanaeth

Gofynion gwasanaeth	Addysgol	Safle ac Adeiladau
Craidd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Staff Addysgu</li> <li>• Sgiliau'r Gweithlu</li> <li>• Gwybodaeth y Gweithlu</li> <li>• Hyfforddi staff</li> <li>• Cydgysylltiad ar draws pob maes dysgu a phob pwnc</li> <li>• Cwricwlwm cytbwys</li> <li>• Cwricwlwm sy'n cynnig datblygiad</li> <li>• Cwricwlwm sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol</li> <li>• Cwricwlwm sy'n bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau a Llwybrau Dysgu 14-19</li> <li>• Addysg Ddwyeithog/Cyfrwng Cymraeg</li> <li>• Cwricwlwm sy'n bodloni disgwyliadau a gofynion cyfreithiol</li> <li>• Datblygu sgiliau disgyblion</li> <li>• Addysg bersonol a chymdeithasol</li> <li>• Arweiniad a rheolaeth ar bob lefel</li> <li>• Sicrhau bod holl grwpiau'r</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Safle(oedd) addas</li> <li>• Diogelwch a rheolaeth effeithiol</li> <li>• Adeiladau cynhwysol sy'n hygyrch i bawb</li> <li>• Adeiladau hyblyg y gellir eu haddasu</li> <li>• Mannau dysgu arbenigol a chyffredinol hyblyg ym mhob ysgol</li> <li>• Adnoddau dysgu lleol a chanolog sydd wedi'u lleoli mewn manau priodol</li> <li>• Nifer o fannau ymgynnull sy'n briodol ar gyfer y strwythur sefydliadol</li> <li>• Cyfleusterau staff lleol a chanolog sydd wedi'u lleoli'n briodol</li> <li>• Cyfleusterau lles o safon uchel</li> <li>• Mannau storio lleol a chanolog sydd wedi'u strwythuro'n dda</li> <li>• Adeiladau cefnogaeth gyffredinol addas</li> <li>• Darpariaeth ddigonol ar gyfer arholiadau</li> <li>• Cyfleusterau arlwy a bwyta addas</li> <li>• Defnyddio manau allanol yn briodol</li> </ul>

	<p>gymuned yn cael eu cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfleoedd cyfartal</li> <li>• Datblygiad o safbwynt yr iaith Gymraeg</li> <li>• Sgiliau TGCh</li> <li>• Staff ategol, gweinyddol a thechnegol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parcio a mynediad diogel</li> <li>• Cyfleusterau amgylcheddol gyfrifol</li> <li>• Cydymffurfiad ag iechyd a diogelwch</li> <li>• Diogelu drwy Ddylunio</li> <li>• Digon o olau dydd ac awyru ac acwsteg dda</li> <li>• Gwres a golau da</li> <li>• Systemau cyfathrebu effeithiol</li> <li>• Seilwaith integredig da</li> <li>• Wedi'i ddylunio mewn modd cynaliadwy - BREEAM a charbon isel</li> </ul>
Dymunol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dysgu wedi'i bersonoli</li> <li>• Ysgolion bro</li> <li>• Cydweithio â'r gymuned e.e. ysgolion a busnesau</li> <li>• Darpariaeth arbenigol yn y cwricwlwm sy'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau a gofynion statudol, yn arbennig yng nghyswllt ôl-16</li> <li>• Cysylltiadau â darparwyr eraill, e.e. colegau a gwaith</li> <li>• Sylfaen adnoddau addysg alwedigaethol</li> <li>• Y Gymuned yn defnyddio: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cyfleoedd dysgu i oedolion</li> <li>○ Llyfrgell</li> <li>○ Cyfleusterau hamdden</li> <li>○ Cyfleusterau chwaraeon</li> <li>○ Sylfaen ddiwylliannol</li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhannu cyfleusterau</li> </ul>
Dewisol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfleusterau crèche a gofal plant</li> <li>• Sylfaen adnoddau IT gymunedol</li> <li>• Adfywio cymunedol</li> <li>• Gwasanaeth cwbl integredig i blant yn yr ysgol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Neuadd gymunedol</li> <li>• Canolfan hamdden gymunedol</li> <li>• Caeau chwarae cymunedol</li> <li>• Cyfleusterau chwaraeon bob-tywydd i'r gymuned</li> </ul>

## 2.10 Prif feini prawf o safbwynt buddion

Yn yr adran hon, disgrifir y prif ganlyniadau a'r buddion sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Amcanion Buddsoddi. Bydd bodloni cwmpas dichonol y buddsoddiad hwn yn esgor ar y buddion gweithredol a strategol lefel uchel isod. Mae'r amcanion buddsoddi, a'r buddion dichonol i wahanol grwpiau o randdeiliaid wedi'u cynnwys yn y tabl isod. Dosberthir y rhain fel a ganlyn:

- BM – Budd Mesuradwy
- BA – Budd Anfesuradwy

- BRhA – Budd Rhyddhau Arian
- Dim yn BRhA – Budd Ariannol ond dim yn Fudd sy'n Rhyddhau Arian

**Tabl 2-10: Meini prawf budd ac amcanion buddsoddi**

Amcanion buddsoddi	Grŵp Rhanddeiliaid	Prif feini prawf budd yn ôl grŵp rhanddeiliaid
1 Gwella safon yr addysg ôl-16 a ddarperir ar hyn o bryd yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint, wedi'u mesur yn ôl canlyniadau disgyblion ac adroddiadau arolygu Estyn.	Dysgwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BM - Codi cyrhaeddiad addysgol</li> <li>• BM – Ehangu cyfleoedd cyflogaeth ac addysg uwch</li> <li>• BA - Cyfoethogi bywyd y dysgwr drwy gael mwy o wybodaeth</li> </ul>
	Staff	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BA – Amgylchedd dysgu sy'n rhoi mwy o foddhad yn gwella morâl</li> <li>• BA - Galluogi staff i gyflawni o safbwynt eu dyheadau galwedigaethol</li> <li>• BA – Gwella rhagolygon o safbwynt gyrfa</li> </ul>
	Cyflogwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BM – cronfa fwy o ddarpar weithwyr lleol mwy cymwys gydag amrywiaeth ehangach o gymwysterau a sgiliau</li> </ul>
	Y Gymuned Ehangach	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BM – Annog mewnfudo i Sir y Fflint</li> <li>• BM – Gwell sgiliau yn denu cyflogwyr</li> </ul>
2 Sicrhau bod cyfran gynyddol o bobl ag anghenion arbennig (addysgol neu anabledd) ac unigolion o deuluoedd agored i niwed yn manteisio ar addysg ôl-16.	Dysgwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BM – Mwy o lwybrau ar gael i blant agored i niwed</li> <li>• BM - Cyfleoedd gyrfa gwell o safbwynt y grwpiau hynny yn y gymdeithas sy'n cael y canlyniadau gwaelaf ar hyn o bryd</li> <li>• BA – Creu mwy o ymdeimlad o les a chynhwysiant ymysg rhai grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio</li> </ul>
	Staff	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BA - Galluogi staff i gyflawni o safbwynt eu dyheadau galwedigaethol</li> </ul>
	Cyflogwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BM – Cronfa adnoddau fwy ar gael yn Sir y Fflint</li> </ul>
	Y Gymuned Ehangach	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BA – Cryfhau'r ymdeimlad o gynhwysiant ar draws y gymuned</li> </ul>
3 Sicrhau y cyflwynir darpariaeth addysgol berthnasol mewn modd sy'n bodloni anghenion lles ehangach ein pobl ifanc, eu rhieni / gofalwyr a'n cymunedau.	Dysgwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BA – Darparu amgylchedd gwell i hybu cyrhaeddiad addysgol uwch</li> <li>• BA – Creu mwy o ymdeimlad o gynhwysiant a lles, gan annog mwy o ymgysylltiad â gweithgareddau ehangach yr ysgol</li> <li>• BA – Dysgwyr sy'n teimlo eu bod yn cael cymorth llawn yn eu profiad dysgu</li> <li>• BM – Cynorthwyo dysgwyr i gwblhau cyrsiau</li> </ul>
	Staff	<ul style="list-style-type: none"> <li>• BA – Gwell dealltwriaeth o faterion y tu allan i'r ysgol a allai fod yn effeithio ar ddysgu</li> <li>• BM – Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad</li> </ul>

Amcanion buddsoddi	Grŵp Rhanddeiliaid	Prif feini prawf budd yn ôl grŵp rhanddeiliaid
		personol a phroffesiynol
	Cyflogwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>BA – Meithrin sgiliau galwedigaethol ehangach sydd eu hangen mewn busnes</li> </ul>
	Y Gymuned Ehangach	<ul style="list-style-type: none"> <li>BM – Cynyddu'r defnydd a wneir o gyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned</li> <li>BA – Mwy o ymdeimlad fod ysgolion yn ased i'r gymuned</li> </ul>
4 Sicrhau bod y cyrsiau ôl-16 o safon a fynnir gan ein myfyrwyr, cyflogwyr lleol, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu darparu'n effeithlon.	Dysgwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>BA – Darperir cyrsiau i ddysgwyr sydd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer y gwaith sydd ar gael yn lleol</li> <li>BM – Sicrhau mwy o ganolbwyntio yng nghyswllt disgyblion</li> <li>BM – Gallu dilyn arbenigedd sy'n cyd-fynd â dyheadau unigolion o safbwynt gyrfa</li> </ul>
	Staff	<ul style="list-style-type: none"> <li>BA – Cyfle i lunio a darparu cyrsiau fydd yn denu pobl i ddysgu</li> </ul>
	Cyflogwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>BM – Lleihau'r costau sy'n gysylltiedig ag uwchsgilio darpar weithwyr</li> <li>BM – Lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â recriwtio</li> <li>BA – Mwy o ddysgwyr arbenigol sydd â sgiliau y mae'r farchnad yn chwilio amdanynt</li> </ul>
	Y Gymuned Ehangach	<ul style="list-style-type: none"> <li>BRhA – Darparu cyfleoedd i ddarparu ddysgwyr sydd ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant</li> <li>BA – Darpariaeth sgiliau sy'n canolbwyntio ar anghenion y gymuned</li> </ul>
5 Sicrhau y cyflwynir darpariaeth addysgol ôl-16 mewn modd sy'n bodloni dyheadau amgylcheddol ein trigolion, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac arferion gorau / canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.	Dysgwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>BM – Llai o deithio</li> <li>BA – Ysgogi dysgu drwy ddarparu amgylchedd priodol</li> </ul>
	Staff	<ul style="list-style-type: none"> <li>BA – Gweithio mewn cyfleusterau gwell yn rhoi mwy o foddhad</li> <li>BA – Amgylchedd dysgu sy'n rhoi mwy o foddhad yn gwella morâl</li> </ul>
	Cyflogwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li></li> </ul>
	Y Gymuned Ehangach	<ul style="list-style-type: none"> <li>BM – Ysgolion mwy cynaliadwy</li> <li>BM / BRhA – Adeiladau addas i'r pwrpas sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau cymunedol</li> </ul>

### 2.11 Prif risgiau

Isod, dangosir y prif risgiau sy'n gysylltiedig â chwmpas dichonol y prosiect hwn, ynghyd â'r gwrth-fesurau iddynt. Dosberthir y risgiau fel risg Busnes, Gwasanaeth neu Amgylchedd Allanol.

**Tabl 2-11: Risgiau a gwrth-fesurau**

Categori Risg	Disgrifiad o'r Risg	Gwrth-fesurau
Risg Busnes	Rhaniad diwylliannol neu'r argraff bod y "Gogledd" neu'r "De" yn cael ei ffafrio wrth ystyried newidiadau posibl i'r ddarpariaeth ôl-16	Creu proses ymgynghori dryloyw, gan annog rhanddeiliaid allweddol i gymryd rhan.
Risg Busnes	Y datblygiadau strategol arfaethedig i drawsnewid y Rhwydwaith yn fwy na'r cyllid gan LICC sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y gwaith	Ceisio defnyddio ffynonellau ariannu eraill i gefnogi'r gweithgaredd (lle bo rhai ar gael) a chynllunio gwariant ar draws y broses Ysgolion ar gyfer yr 21 <sup>ain</sup> ganrif a Thrawsnewid
Risg Busnes	Methu bodloni gofynion yr opsiynau (fel yn y Mesur Dysgu a Sgiliau)	Defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r astudiaeth sylfaenol i ganfod y meysydd sy'n debygol o fod yn her. Rheoli'r cynigion o safbwynt y ddarpariaeth er mwyn sicrhau y bodlonir gofynion y mesur yng nghyswllt holl Blant a Phobl Ifanc Sir y Fflint.
Risg Busnes	Materion diwylliannol mewn ysgolion sy'n cyfyngu ar gydweithio posibl	Cynllunio ymgysylltiad helaeth yng nghyswllt yr holl elfennau o newid
Risg Busnes	Ad-drefnu ysgolion yn arwain at rai ysgolion penodol yn cael mwy o geisiadau am leoedd na sydd ganddynt i'w cynnig	Sicrhau bod meini prawf mynediad yn cael eu hadolygu yn unol â'r newidiadau arfaethedig i addysg ôl-16
Risg Busnes	Cyllidebau a rhwydweithiau cludiant na ellir eu cynnal	Sicrhau bod meini prawf a rhwydweithiau cludiant yn cael eu hadolygu yn unol â'r newidiadau arfaethedig i addysg ôl-16
Risg Busnes	Oedi cyn cael sêl bendith LICC i'r Achos Amlinellol Strategol yn peri oedi cyn cyflwyno'r cynigion trawsnewid	Cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol o fewn y terfyn amser a gytunwyd er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gymeradwyo mewn da bryd
Risg Busnes	Gwrthwynebiad cryf i'r newidiadau i'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn achosi oedi cyn cyflwyno'r cynigion trawsnewid	Ymgynghori ac ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid
Risg Busnes	Bod cyllid ar gael gan yr awdurdod ar gyfer yr arian cyfatebol angenrheidiol	Sefydlu faint yn union a sut fath o arian cyfatebol a fynnir gan LICC
Risg Gwasanaeth	Diffyg ymwybyddiaeth ymysg myfyrwyr o'r dewisiadau sydd ar gael yn y cwricwlwm yn awr ac yn y dyfodol	Cydgysylltu a marchnata'r cwricwlwm yn well er mwyn helpu myfyrwyr gyda'u dewisiadau
Risg Gwasanaeth	Dim digon o adnoddau ar gael i ddarparu rhaglenni trwy gyfrwng y Gymraeg o'i	Recriwtio mewn da bryd er mwyn osgoi unrhyw ddiffyg o ran staffio yn

Categori Risg	Disgrifiad o'r Risg	Gwrth-fesurau
	gymharu â'r newidiadau a ragwelir yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg	y dyfodol, a mynd ar drywydd modelau cydweithio rhanbarthol, gan gynnwys AB ac AU
Risg Gwasanaeth	Gweithredu'r newid yn tarfu ar y ddarpariaeth addysgol ac yn cael effaith andwyol ar ganlyniadau dysgwyr ôl-16	Sicrhau y cydlynir yr holl gynlluniau a bod trefniadau dros dro yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn briodol
Risg Gwasanaeth	Staff yn gorfod teithio mwy rhwng lleoliadau dysgu er mwyn darparu'r cyrsiau	Cynllunio amserlenni fel bod athrawon a disgyblion yn gorfod teithio cyn lleied â phosibl
Risg Amgylchedd Allanol	Newidiadau deddfwriaethol	Lle bynnag y bo modd cynllunio'r opsiynau i fod yn hyblyg
Risg Amgylchedd Allanol	Newid yn yr hinsawdd wleidyddol ar lefel LICC	Sicrhau bod pob cais yn unol â pholisïau presennol LICC
Risg Amgylchedd Allanol	Newid yn yr hinsawdd wleidyddol ar lefel y Sir	Sicrhau bod pob cais yn unol â pholisïau presennol yr awdurdod a bod digon o ymgysylltu wedi bod ag aelodau etholedig

## 2.12 Cyfyngiadau

Mae'r cyfyngiadau canlynol yn berthnasol i'r prosiect:

- Polisiau LICC;
- Polisiau'r Cyngor Sir;
- yr adnoddau priodol sydd ar gael;
- deddfwriaeth yn y dyfodol;
- y diwylliant sy'n bodoli yn yr ysgolion a'r farn am y trefniadau cydweithio;
- pa mor barod yw pobl i dderbyn newidiadau i strwythurau llywodraethu;
- i ba raddau y bydd Coleg Glannau Dyfrdwy yn croesawu cynlluniau trawsnewid Cyngor Sir y Fflint; a
- cyllid ar gyfer Cyrsiau Dysgu i Oedolion a Dysgu Cymunedol.

## 2.13 Dibyniaethau

Mae'r prosiect yn gaeth i rai dibyniaethau a fydd yn cael eu rheoli'n ofalus gydol oes y cynllun. Rhaid rheoli'r ffactorau allanol hyn yn weithredol i sicrhau bod unrhyw faterion yn dod i'r amlwg yn gynnar



a'u bod yn cael eu datrys neu fod eu heffaith bosibl ar lwyddiant cyffredinol y prosiect yn cael ei leddfu. Mae'r dibyniaethau canlynol yn berthnasol i'r prosiect:

- **bod cyllid ar gael i roi'r opsiwn a ffafrir ar waith;**
- **parodrwydd rhanddeiliaid i dderbyn cynigion newydd;**
- **bod LICC yn cyllido'r rhaglen gyfalaf a bennwyd gan yr awdurdod; a**
- **cymeradwyaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Awdurdod Lleol.**



## 3.0 Yr Achos Economaidd

### 3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon o'r Achos Amlinellol Strategol yn ymhelaethu ar yr amrediad eang o opsiynau sydd wedi cael eu hystyried mewn ymateb i'r cwmpas posibl a nodwyd yn yr achos strategol.

### 3.2 Ffactorau llwyddiant allweddol

Dyma brif ffactorau llwyddiant allweddol (FfLIA) y prosiect:

- FfLIA1: cydweddiad strategol
  - **Rhaid i'r opsiwn fodloni'r holl amcanion buddsoddi a diwallu'r anghenion busnes cysylltiedig sydd wedi'u nodi ar gyfer y prosiect.**
  - **Rhaid i'r opsiwn fod y gorau (yn y tymor hir) o ran cydnawsedd â'r sgiliau y mae cymunedau busnes a masnachol yr ardal yn galw amdanynt.**
  
- FfLIA2: Gwerth am Arian dichonol
  - **Rhaid i'r opsiwn sicrhau'r elw gorau posibl o'r buddsoddiad yn nhermau economaidd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a lleddfu unrhyw risgiau cysylltiedig i'r eithaf**
  - **Sicrhau darpariaeth gwasanaeth o'r safon uchaf yng nghyswllt disgyblion, teuluoedd a rhieni / gofalwyr.**
  
- FfLIA3: pa mor debygol ydyw o gael ei gyflawni
  - **Rhaid cyfleu buddion yr opsiwn a ffafrir i ddisgyblion/rhieni, staff addysgu a'r gymuned ehangach a rhaid iddynt ddeall y buddion hynny.**
  - **Rhaid i'r capasiti addysgu fod ar gael a rhaid cael y sgiliau a'r weledigaeth i sicrhau'r canlyniadau a fyynnir, neu ymwybyddiaeth o'r angen i recriwtio pobl a'r sgiliau priodol.**
  - **Model(au) cynaliadwy ar gyfer darparu dysgu yn Sir y Fflint sy'n diwallu anghenion (addysgol a bugeiliol) a bodloni dyheadau pob plentyn, yn awr ac yn y dyfodol.**
  
- FfLIA4: y gallu a'r capasiti i gyflenwi
  - **Digon o adnoddau priodol i fod ar gael yn Sir y Fflint i gyflawni'r amcanion buddsoddi.**
  
- FfLIA5: pa mor fforddiadwy ydyw

- Mae modd bodloni'r gofynion o ran y buddsoddiad drwy gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â chyfraniadau gan Gyngor Sir y Fflint, os oes angen.
- Mae modd cyflwyno'r opsiynau gam wrth gam i gyfateb i'r cyllid sydd ar gael, os oes angen.

Defnyddiwyd y FfLIA hyn ochr yn ochr â'r amcanion buddsoddi ar gyfer y prosiect i werthuso'r rhestr hir o opsiynau posibl.

### 3.3 Opsiynau - y rhestr hir

Fel y trafodwyd yn yr Achos Strategol, ystyriwyd y ddarpariaeth addysg ôl-16 ar sail dwy ardal ddaearyddol, ac eithrio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth Ffydd. Yn sgil y dull gweithredu ar sail ardal hwn, wrth ystyried yr holl ddewisiadau cydweithio ac ailstrwythuro ym mhob ardal, yn ystod "dyddiau darparwyr" dewiswyd y rhai oedd yn cynnig cyfle rhesymol i sicrhau gwell canlyniadau, cynaliadwyedd, cydymffurfiaid statudol a gwerth am arian. Cyfarfodydd a gynhaliwyd bob mis gyda chynrychiolwyr o bob un o'r deuddeg ysgol a'r coleg oedd y dyddiau darparwyr ac ynddynt trafodwyd y cynigion o ran trawsnewid. Disgrifir yr opsiynau sydd ar y rhestr hir isod.

#### 3.3.1 Y Gogledd

- Opsiwn 1 - Gwneud dim, y cynlluniau yn aros fel ag y maent ar hyn o bryd
- Opsiwn 2 – Crynhoi'r ddarpariaeth ôl-16 ar Gampws Cei Connah, gyda pheth ad-drefnu mewn mannau eraill
- Opsiwn 3 - Rhannu'r ddarpariaeth a chydweithio ar sail y Gogledd Orllewin (Treffynnon, Y Fflint a St Richard Gwyn) a'r Gogledd Ddwyrain (John Summers, Cei Connah, Dewi Sant).
- Opsiwn 4 – Ail-gategoreiddio'r holl ysgolion i fod yn ddarparwyr ar gyfer disgyblion 11-16 oed a chael un darparwr ôl-16 sy'n cael ei lywodraethu'n annibynnol.

#### 3.3.2 Y De

- Opsiwn 5 - Gwneud dim, y cynlluniau yn aros fel ag y maent ar hyn o bryd
- Opsiwn 6 - Cydweithio rhwng Castell Alun a Phenarlâg, ac Ysgol Alun, Yr Wyddgrug, Ysgol Uwchradd Elfed ac Ysgol Uwchradd Argoed

Crëwyd a lluniwyd y rhestr hir o opsiynau ar gyfer y trawsnewid yn ystod cyfres o "Dyddiau Darparwyr" wedi'u hwyluso gan Gyngor Sir y Fflint. Roedd Penaethiaid neu ddirprwy benaethiaid ysgolion ledled y sir ac aelodau o dîm arwain uwch Coleg Glannau Dyfrdwy yn bresennol yn y sesiynau hyn. Roedd yr un grŵp o ddeuddeg unigolyn hefyd yn bresennol yn y gweithdy gwerthuso opsiynau terfynol a drafodir ymhellach ymlaen yn yr adran hon.

### **3.3.3 Opsiynau cwmpasu – y dewisiadau o ran cynnwys (beth)**

Ysgogir y dewisiadau o safbwynt cwmpas posibl gan anghenion busnes ac amcanion strategol cenedlaethol a lleol. Yn ymarferol, gallai'r rhain amrywio o ymarferoldeb busnes i gynnwys sefydliadol, cwsmeriaid a daearyddol. Y prif bethau i'w hystyried ar y cam hwn yw 'beth ddylid ei gynnwys?' 'beth na ddylid ei gynnwys?' ac anghenion y gwasanaeth.

### **3.3.4 Yr opsiynau o safbwynt atebion gwasanaeth – y dewisiadau o ran atebion (sut)**

Mae'r dewisiadau o safbwynt atebion posibl yn seiliedig ar dechnolegau newydd, gwasanaethau newydd a dulliau gweithredu newydd a ffyrdd newydd o weithio, sy'n cynnwys ailgynllunio prosesau busnes. Yn ymarferol, bydd y rhain yn amrywio o wasanaethau i sut y gellid cyflunio stad sefydliad. Mae'r prif bethau i'w hystyried yn amrywio o 'beth yw'r ffyrdd o wneud hyn?' i 'pa brosesau y gallwn ni eu defnyddio?'

### **3.3.5 Yr opsiynau o safbwynt cyflwyno'r gwasanaeth – y dewisiadau o ran cyflwyno (pwy)**

Mae'r dewisiadau o ran cyflwyno'r gwasanaeth yn dibynnu ar y darparwyr gwasanaeth sydd ar gael. Yn ymarferol, bydd y rhain yn amrywio o'r darparwyr sydd ar gael yn y sefydliad (mewnol) i ddarparwyr allanol, i ddefnyddio'r sector cyhoeddus yn hytrach na'r sector preifat, neu gyfuniad o bob un o'r rhain. Mae defnyddio rhyw fath o bartneriaeth sector cyhoeddus preifat hefyd yn berthnasol yma.

### **3.3.6 Opsiynau gweithredu – y dewisiadau o ran yr amserlen gyflawni**

Mae'r dewisiadau ar gyfer gweithredu yn dibynnu ar allu'r ochr gyflenwi i ddarparu'r cynnyrch a'r gwasanaethau a fynnir, Gwerth Am Arian, fforddiadwyedd ac anghenion y gwasanaeth. Yn ymarferol, bydd y rhain yn amrywio o gyflwyno'r ateb fesul cam dros gyfnod o amser, i gyflwyno gwasanaethau mewn modd modiwl, cynyddrannol.

### **3.3.7 Opsiynau cyllido – y dewisiadau o ran cyllido**

Bydd y dewisiadau ar gyfer ariannu'r cynllun (cyllid cyhoeddus yn erbyn cyllid preifat) a chyllido (yn ganolog yn erbyn yn lleol) yn dibynnu ar y cyfalaf a'r referniw sydd ar gael, Gwerth Am Arian posibl, a pha mor effeithiol neu berthnasol/priodol yw'r ffynonellau cyllido.

## **3.4 Opsiynau Cwmpasu**

Yn unol â Llyfr Gwyrdd y Trysorlys, ystyriwyd opsiwn gwneud dim yn ogystal ag opsiynau eraill yng nghyswllt y continwmm o anghenion busnes wedi'u rhannu ar draws y "Gogledd" a'r "De". Fel y nodwyd uchod, mae nifer fawr o opsiynau ac addasiadau yn bosibl; fodd bynnag, o fewn y cwmpas

bras a nodwyd yn yr achos strategol, ystyriwyd mai'r canlynol yw'r opsiynau mwyaf ymarferol yn dilyn ymarfer sifftio cychwynnol gan ddarparwyr ac mae dadansoddiad SWOT wedi'i gynnwys isod:

#### **3.4.1 Opsiwn 1: Y Gogledd (gwneud y lleiaf posibl)**

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw newid yn y strwythurau darparu ar gyfer addysg ôl-16. Ni fyddai unrhyw newidiadau i seilwaith ffisegol unrhyw un o'r safleoedd ar wahân i'r hyn sydd eisoes wedi'i gynllunio.

##### **Cryfderau**

- Mae safonau a thueddiadau aros yr un fath
- Mae arbenigedd broffesiynol yn aros yn yr ysgolion
- Dim tarfu ar ethos a'r gymuned

##### **Gwendidau**

- Methu bodloni'r mesur dysgu a sgiliau yn yr holl sefydliadau dysgu
- Ni fydd modd rhoi'r dewisiadau gorau posibl i ddysgwyr
- Bydd croes-gymorthdaliadau cyn ôl-16 yn cael eu colli

##### **Cyfleoedd**

- Cydweithio rhwng ysgolion er mwyn rhannu arferion gorau

##### **Bygythiadau**

- Nid yw'r cyllid yn gynaliadwy
- Lleoedd gwag

#### **3.4.2 Opsiwn 2: Y Gogledd – Crynhoi'r ddarpariaeth ôl-16 ar Gampws Cei Connah, gyda pheth ad-drefnu mewn mannau eraill**

##### **Cryfderau**

- Darpariaeth addysg ôl-16 yn cael ei chyflwyno'n effeithiol
- Mwy o ddewis i ddysgwyr - bodloni'r mesur dysgu a sgiliau
- Natur gynhwysol y ddarpariaeth

##### **Gwendidau**

- Angen datblygu trefniadau rheoli cydlynol
- Ateb cymharol gymhleth sy'n galw am gynllunio sylweddol ar gyfer y cyfnod pontio
- Gallai Sicrhau Ansawdd fod yn broblem

#### **Cyfleoedd**

- Y posibilrwydd o fuddsoddi yng nghampws Cei Connah
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer staff
- Gwella safonau
- Llai o fudo ymysg dysgwyr

#### **Bygythiadau**

- Efallai na fydd y gymuned yn cefnogi'r syniad
- Colli dysgwyr ar draws ffiniau sirol Sir y Fflint
- Ysgolion 11-16 llai o ganlyniad i'r ad-drefnu. Efallai na fydd hyn yn gynaliadwy

#### **3.4.3 Opsiwn 3: Y Gogledd – Trefnu'r ddarpariaeth ôl-16 a chydweithio ar sail y Gogledd Orllewin (Treffynnon, Y Fflint a St Richard Gwyn) a'r Gogledd Ddwyrain (John Summers, Cei Connah, Dewi Sant).**

#### **Cryfderau**

- Gwella natur gynhwysol y ddarpariaeth
- Gweithdrefnau a threfniadau rheoli cadarn
- Cydlynu model 2011

#### **Gwendidau**

- Canlyniadau cysylltiedig â chyrhaeddiad
- Dim tebygolrwydd o fuddsoddi
- Nid yw'n cymharu'n ffafriol â dewisiadau eraill yn nhermau effeithiolrwydd o ran cost a chynaliadwyedd

#### **Cyfleoedd**

- Bydd modelau dysgu newydd yn cael eu datblygu
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer staff

#### **Bygythiadau**

- Mae'n bosibl nad yw'n gynaliadwy
- Efallai y bydd rhieni / dysgwyr yn ei wrthod

#### **3.4.4 Opsiwn 4: Y Gogledd – Ail-gategoreiddio'r ysgolion i gyd i fod yn ddarparwr ar gyfer disgyblion 11-16 oed a chael un darparwr ôl-16 sy'n cael ei lywodraethu'n annibynnol.**

##### **Cryfderau**

- Darpariaeth addysg ôl-16 yn cael ei chyflwyno'n effeithiol
- Mwy o ddewis i ddysgwyr - bodloni'r mesur dysgu a sgiliau
- Natur gynhwysol y ddarpariaeth
- Cydraddoldeb i bawb, a hwnnw wedi'i ddiffinio'n glir

##### **Gwendidau**

- Rheoli un sefydliad ar ddau safle sydd 13 milltir ar wahân
- Ateb cymharol gymhleth sy'n galw am gynllunio sylweddol yng nghyswllt y cyfnod pontio
- Gallai Sicrhau Ansawdd fod yn broblem

##### **Cyfleoedd**

- Newid sylweddol a allai greu perygl o ddirywiad mewn canlyniadau/cyfranogiad

##### **Bygythiadau**

- Llai o recriwtio i ysgolion 11-16 yn y tymor byr
- Ysgolion 11-16 llai oherwydd ad-drefnu
- Methu bodloni disgwyliadau un gymuned

#### **3.4.5 Opsiwn 5: Y D - Gwneud y lleiaf posibl**

##### **Cryfderau**

- Mae safonau a thueddiadau yn aros yr un fath
- Mae arbenigedd broffesiynol yn aros yn yr ysgolion
- Dim tarfu ar ethos a'r gymuned

##### **Gwendidau**

- Methu bodloni'r mesur dysgu a sgiliau yn yr holl sefydliadau dysgu
- Ni fydd modd rhoi'r dewisiadau gorau posibl i ddysgwyr
- Bydd croes-gymorthdaliadau cyn ôl-16 yn cael eu colli

##### **Cyfleoedd**

- Cydweithio rhwng ysgolion er mwyn rhannu arferion gorau

### **Bygythiadau**

- Nid yw'r cyllid yn gynaliadwy
- Lleoedd gwag

### **3.4.6 Opsiwn 6: Y De - Cydweithio rhwng Castell Alun a Phenarlâg, ac Ysgol Alun, Yr Wyddgrug, Ysgol Uwchradd Elfed ac Ysgol Uwchradd Argoed**

#### **Cryfderau**

- Diwallu anghenion cyffredinol y cwricwlwm ym mhob lleoliad
- Darpariaeth gynaliadwy a sefydlog
- Adeiladu ar gryfderau presennol

#### **Gwendidau**

- Materion logistaidd (amserlennu, cludiant a mynediad at TGCh)

#### **Cyfleoedd**

- Llwybrau dysgu eang
- Buddsoddi ychwanegol (wedi'i gyllido drwy ad-drefnu'r stoc adeiladau)

### **Bygythiadau**

- Cyllid
- Lleoedd gwag os na fanteisir yn llawn ar y cyfleoedd

### **3.4.7 Opsiwn 7: Cyfrwng Cymraeg – Gwneud dim**

#### **Cryfderau**

- Y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno'n lleol
- Safonau ac ethos presennol
- Staffio o fewn y cynnig presennol

#### **Gwendidau**

- Dysgwyr yn dilyn llwybrau anaddas
- Croes-gymhorthdal yng nghyswllt cyn-16
- Methu bodloni'r Mesur Dysgu a Sgiliau

### **Cyfleoedd**

Ni nodwyd unrhyw gyfleoedd yng nghyswllt yr opsiwn hwn yn ystod y gweithdy gwerthuso opsiynau

### **Bygythiadau**

- Cynaliadwyedd (Cyllid LICC)
- Efallai y caiff dysgwyr eu denu i fanteisio ar gynnig mwy mewn sefydliadau cyfrwng Saesneg

## **3.4.8 Opsiwn 8: Cyfrwng Cymraeg – Cydweithio ar lefel ranbarthol ac is-ranbarthol**

### **Cryfderau**

- Mwy o ddysgwyr
- Mwy o ddarpariaeth
- Yn well o safbwynt bodloni'r hyn sydd orau gan ddysgwyr, a gwella perfformiad a chymhelliant dysgwyr o ganlyniad i hynny
- Adeiladu ar gysylltiadau presennol ac ethos a rennir

### **Gwendidau**

- Pellter rhwng darparwyr – cost o safbwynt amser dysgwyr
- Pellter rhwng darparwyr – costau teithio

### **Cyfleoedd**

- Model dysgu mwy amrywiol
- Strategaeth Iaith Gymraeg

### **Bygythiadau**

- Cynaliadwyedd y cyllid
- Cynnig cyfrwng Saesneg mwy ar gael mewn canolfannau unigol



### 3.4.9 Casgliad cyffredinol: Opsiynau Cwmpasu

Ceir crynodeb o'r asesiad ar gyfer pob opsiwn yn erbyn yr amcanion buddsoddi a FFLIA yn y tabl isod.

**Table 3-1: Asesiad cryno o'r opsiynau cwmpasu**

Cyfeirio at:	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4	Opsiwn 5	Opsiwn 6	Opsiwn 7	Opsiwn 8
<b>Disgrifiad o'r opsiwn:</b>	Y Gogledd – gwneud dim	Y Gogledd – crynhoi'r ddarpariaeth yng Nghei Connah gyda pheth ad-drefnu	Y Gogledd – rhaniad GDd/G O	Y Gogledd – ail-gategoreiddio ysgolion fel darparwyr 11-16 a chanfod partner newydd	Y De – Gwneud dim	Y De – Cydweithio a chael gwared â lleoedd gwag	Cyfrwng Cymraeg – Gwneud dim	Cyfrwng Cymraeg – dull rhanbarthol
<b>Amcanion buddsoddi</b>								
Cryfhau cyrhaeddiad addysgol.	X	✓	?	?	?	✓	X	✓
Mwy o gynhwysiant	X	?	?	?	?	✓	X	✓
Gwell lles	X	?	✓	?	?	✓	X	✓
Cyflwyno darpariaeth o safon mewn modd effeithlon	X	✓	?	✓	✓	✓	X	✓
Bodloni dyheadau amgylcheddol	X	?	?	✓	✓	✓	X	?
<b>Ffactorau Llwyddiant Allweddol</b>								
Cydweddiad Strategol	X	✓	?	?	?	✓	X	?
Gwerth am Arian	X	✓	?	✓	?	✓	X	✓

Pa mor debygol yw o gael ei gyflawni	?	✓	X	?	?	✓	X	✓
Y gallu a'r capasiti i gyflenwi	X	✓	?	?	?	?	✓	✓
Fforddiadwyedd	X	✓	?	?	?	?	?	?
<b>Crynodeb</b>	<b>Diystyr u</b>	<b>Ffafrio</b>	<b>Diystyr u</b>	<b>Posibl</b>	<b>Diystyr u</b>	<b>Ffafrio</b>	<b>Diystyr u</b>	<b>Ffafrio</b>

### 3.4.10 Opsiynau Cwmpasu - casgliadau

Cafodd yr opsiynau cwmpasu eu gwerthuso gan y deuddeg pennaeth a dirprwy bennaeth ar 9fed Mehefin 2010. Mae'r tabl uchod yn dangos casgliadau'r gwerthusiad yn erbyn pob un o'r amcanion buddsoddi a'r ffactorau llwyddiant hanfodol. Mae'r canlyniadau llawn hefyd wedi'u cynnwys yn atodiad C.

Cydweithio yw'r dull a ffafrir yn y ddwy ardal ddaearyddol ond mae manylion y cydweithio yn nhermau ad-drefnu eto i'w penderfynu. Rhagwelir y bydd mwy o fanylion ar gael ynglŷn â'r opsiynau - yn enwedig o ran ad-drefnu – ar y cam Achos Busnes Amlinellol. Bydd hwn hefyd yn cyd-daro â chyfnod ymgynghori sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Hydref 2010.

At ddibenion dadansoddiad ariannol yr achos economaidd ac ariannol, gwnaed y tybiaethau canlynol:

- bydd ad-drefnu / cydweithio yn creu arbedion effeithlonrwydd yng nghyswllt atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau;
- bydd cydweithio yn creu arbedion effeithlonrwydd o safbwynt darparu adnoddau;
- bydd sefydlu cwricwla lleol yn bodloni'r mesur dysgu a sgiliau; a
- bydd unrhyw arbedion sy'n deillio o'r prosiect yn cael eu defnyddio i uwchraddio cyfleusterau.

### 3.5 Yr opsiynau – atebion gwasanaeth

Er mwyn cyflawni'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn yr Achos Amlinellol Strategol hwn, ystyriwyd dau ateb gwasanaeth. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

- Opsiwn 2.1 – Adnewyddu'r ysgolion fel ag y maent ar eu safleoedd presennol.
- Opsiwn 2.2 - Rhaglen o ad-drefnu ysgolion a mwy o weithio mewn partneriaeth

#### **Opsiwn 2.1 – Adnewyddu'r ysgolion ar eu safleoedd presennol**

Mae'r opsiwn hwn yn ymgais i wireddu'r weledigaeth strategol a chyflawni'r amcanion buddsoddi drwy newid yr ysgolion ar eu safleoedd presennol. Byddai'r opsiwn hwn yn galw am ailwampio sylweddol yn y safleoedd presennol yn ogystal â chodi adeiladau newydd.

#### **Manteision**

Dyma brif fanteision yr opsiwn hwn:

- dim newid o safbwynt pellteroedd teithio i ddisgyblion a staff ysgolion;
- cysondeb yng nghyswllt addysg; a
- cynnal cydlyniant cymunedol.

### **Anfanteision**

Dyma'r prif anfanteision:

- dim tir ar gael i ddarparu safle dros dro tra bo'r gwaith adeiladu yn cael ei gynllunio a'i wneud;
- amharu'n sylweddol ar safleoedd ysgolion;
- lleoedd gwag yn bodoli o hyd;
- costau uwch o ran gwaith cynnal a chadw sy'n cronni.

### **Opsiwn 2.2 – Ad-drefnu ysgolion**

Y dewis hwn yw ad-drefnu'r ysgolion, i wahanol raddau o gymhlethdod, ym mhob ardal ddaearyddol.

### **Manteision**

Dyma brif fanteision yr opsiwn hwn:

- cyfyngu i'r eithaf ar leoedd gwag;
- adeiladau ysgolion yn cael eu defnyddio'n effeithlon;
- y posibilrwydd o lai o ddyblygu yng nghyswllt grwpiau addysgu

### **Anfanteision**

Dyma brif anfanteision yr opsiwn hwn:

- y posibilrwydd y bydd disgyblion a staff yn gorfod teithio ymhellach;
- amharu ar y ddarpariaeth addysgol yn ystod y cyfnod pontio;
- newid sylweddol i'w reoli, gyda gwahaniaethau ym mhob safle; a'r
- argraff bod ardaloedd penodol yn cael ffafriaeth o ran buddsoddiad/canlyniadau.

### **3.5.1 Casgliad cyffredinol: Yr opsiynau – atebion gwasanaeth**

Ceir crynodeb o'r asesiad ar gyfer pob opsiwn yn erbyn yr amcanion buddsoddi a'r FFLIA yn y tabl isod.

**Tabl 3-2: Asesiad cryno o'r opsiynau - atebion gwasanaeth**

<b>Cyfeirio at:</b>	<b>Opsiwn 2.1</b>	<b>Opsiwn 2.2</b>
<b>Disgrifiad o'r opsiwn:</b>	Adnewyddu ysgolion presennol	Ad-drefnu ysgolion

Amcanion buddsoddi		
Cryfhau cyrhaeddiad addysgol	?	?
Mwy o gynhwysiant	✓	✓
Gwell lles	x	✓
Cyflwyno darpariaeth o safon mewn modd effeithlon	x	✓
Bodloni dyheadau amgylcheddol	?	✓
Ffactorau llwyddiant allweddol		
Cydweddiad Strategol	x	?
Gwerth am Arian	x	✓
Pa mor debygol yw o gael ei gyflawni	✓	?
Y gallu a'r capasiti i gyflenwi	✓	?
Fforddiadwyedd	✓	?
<b>Crynodeb</b>	<b>Diystyru</b>	<b>Ffafrio</b>

Mae'r gwerthusiad o'r ddau opsiwn yn dod i'r casgliad bod un opsiwn yn amlwg yn cael ei ffafrio yng nghyswllt atebion gwasanaeth gan na ellir ond cyflawni'r amcanion buddsoddi drwy ad-drefnu ysgolion yn Sir y Fflint.

### 3.6 Yr opsiynau - Cyflwyno Gwasanaeth

#### 3.6.1 Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ystyried dau opsiwn ar gyfer cyflwyno gwasanaeth, sef "mewnol" a "partneriaethau strategol". Nodir y prif fanteision ac anfanteision isod.

#### Opsiwn 3.1: 'Mewnol'

Sef cyflenwi'r holl ddarpariaeth addysg ôl-16 o fewn sefydliadau presennol yr awdurdod. Byddai hyn yn golygu bod ysgolion presennol yn cydweithio, heb gynnwys colegau na phartneriaid strategol allanol eraill.

#### Manteision

Dyma brif fanteision yr opsiwn hwn:

- parhad o'r dull / darpariaeth mewn ysgol; a
- cysondeb o ran yr amgylchedd i ddysgwyr;

### Anfanteision

Dyma brif anfanteision rhoi'r newidiadau ar waith drwy ddefnyddio atebion 'mewnol':

- y posibilrwydd o syniadau cyfyngedig am ddulliau / arddulliau addysgu; a
- yr amser a gymerir i addasu i'r Mesur Dysgu a Sgiliau.

### Opsiwn 3.2: 'Partneriaethau strategol'

Sef creu mwy o bartneriaethau strategol â sefydliadau annibynnol i ddarparu addysg ôl-16. Byddai hyn yn golygu cydweithio rhwng yr ysgolion a'r coleg ac, o bosibl, partneriaid strategol allanol eraill hefyd.

### Manteision

Dyma brif fanteision yr opsiwn hwn:

- mynediad at fwy o arbenigedd;
- arbedion maint yng nghyswllt adnoddau addysgu; a
- dysgwyr yn cael blas ar amgylcheddau gwahanol.

### Anfanteision

Yr anfantais bennaf yng nghyswllt rhoi'r newidiadau ar waith drwy ddull "partneriaeth strategol" yw:

- anghysondeb o ran trefniadau bugeiliol a llywodraethu.

**Tabl 3-3: Asesiad cryno o'r opsiynau - cyflwyno'r gwasanaeth**

Cyfeirio at:	Opsiwn 3.1	Opsiwn 3.2
Disgrifiad o'r opsiwn:	Mewnol	Partneriaeth Strategol
<b>Amcanion buddsoddi</b>		
Cryfhau cyrhaeddiad addysgol	✓	✓
Mwy o gynhwysiant	✓	?
Gwell lles	?	?
Cyflwyno darpariaeth o safon mewn modd effeithlon	✓	✓

Bodloni dyheadau amgylcheddol	?	?
<b>Ffactorau llwyddiant allweddol</b>		
Cydweddiad Strategol	?	?
Gwerth am Arian	?	✓
Pa mor debygol yw o gael ei gyflawni	✓	?
Y gallu a'r capasiti i gyflenwi	?	?
Fforddiadwyedd	?	?
<b>Crynodeb</b>	Posibl	Posibl

Penderfynwyd cyflenwi'r holl ddarpariaeth drwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr sydd ar gael yn y Sir. Mae digon o gapasiti o safbwynt cyflenwi a bydd partneriaeth barhaus rhwng yr ysgolion a Choleg Glannau Dyfrdwy. Felly, ni ragwelir y bydd angen unrhyw sefydliadau newydd i gyflenwi'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ac oherwydd hynny, ni werthuswyd defnyddio darparwyr allanol fel opsiwn ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth.

### 3.7 Gweithredu – yr opsiynau

#### 3.7.1 Cyflwyniad

Oherwydd cymhlethdod y prosiect a'r is-opsiynau o fewn yr opsiynau cwmpasu, mae Cyngor Sir y Fflint yn sylweddoli na fyddai'n ymarferol i weithredu'r cynigion mewn unrhyw ffordd arall ond trwy ddull gam wrth gam ac y gallai unrhyw ddull arall beryglu llwyddiant cyffredinol y rhaglen. Gan fod yr ateb yn y naill ardal ddaearyddol a'r llall yn wahanol (yn nhermau gofynion seilwaith) ystyriwyd nhw yn ôl pa drefn y dylid eu rhoi ar waith ar sail blaenoriaeth. Ar y sail nad oes gan yr awdurdod yr adnoddau i fabwysiadu dull "newid popeth ar yr un pryd", ac er mwyn lleddfu'r peryglon sy'n gysylltiedig i'r eithaf, dyma drefn debygol y prosiectau:

- Cydweithio ac Ad-drefnu (Opsiwn 2) yng ngogledd y sir
- Cydweithio a chael gwared â Lleoedd Gwag yn ne'r sir

#### **Opsiwn 4.1: 'Newid popeth ar yr un pryd'**

Gyda'r opsiwn hwn, bydd y ddau opsiwn gwahanol ar gyfer ad-drefnu yn cael eu rhoi ar waith ar yr un pryd.

#### **Manteision**

Dyma brif fanteision yr opsiwn hwn:

- newid ar raddfa fawr yn digwydd ar yr un pryd, gyda chysondeb o ran llywodraethu;

- cyfyngu i'r eithaf ar y cyfnod yr amherir ar ysgolion yn Sir y Fflint; a'r
- arbedion maint posibl yn sgil caffael.

### Anfanteision

Y prif anfanteision yng nghyswllt rhoi'r newidiadau ar waith drwy "newid popeth ar yr un pryd" yw:

- posibilrwydd nad yw'n fforddiadwy;
- maint y newid, a'i effaith ar gyflwyno addysg yn y tymor byr;
- y risg sydd ynghlwm â rhaglenni o newid mawr (dim modd eu rheoli); a
- capasiti ac adnoddau (mewnol ac allanol).

### Opsiwn 4.2: 'Cam wrth Gam'

Sef ad-drefnu'r ysgolion gam wrth gam ar sail blaenoriaeth.

### Manteision

Dyma brif fanteision yr opsiwn hwn:

- modd ystyried y gwersi a ddysgwyd yn sgil y prosiectau newid cychwynnol a'u hymgorffori yn y camau dilynol, er mwyn lleddfu risgiau;
- y posibilrwydd o fwy o allu i gyflenwi;
- haws llywodraethu'r prosiect;
- llai o alw, neu alw mwy graddol, ar adnoddau a chyllid; a
- llai o risg i'r prosiect yn gyffredinol.

### Anfanteision

Y prif anfanteision yng nghyswllt rhoi'r newidiadau ar waith "gam wrth gam" yw:

- gwireddu canlyniadau a buddion yn gallu cymryd mwy o amser;
- anghysondeb o ran cyflawni yn erbyn yr agenda trawsnewid;
- ymarfer caffael drud (oherwydd dyblygu); a'r
- posibilrwydd o anghysondeb yng nghyswllt llywodraethu'r prosiect (parhad adnoddau)

**Tabl 3-4: Asesiad cryno o'r opsiynau gweithredu**

Cyfeirio at:	Opsiwn 4.1	Opsiwn 4.2
Disgrifiad o'r opsiwn:	'Newid popeth ar yr un pryd'	'Cam wrth Gam'
<b>Amcanion buddsoddi</b>		
Cryfhau cyrhaeddiad addysgol	✓	✓
Mwy o gynhwysiant	✓	✓



Gwell lles	✓	✓
Cyflwyno darpariaeth o safon mewn modd effeithlon	✓	?
Bodloni dyheadau amgylcheddol	?	✓
<b>Ffactorau llwyddiant allweddol</b>		
Cydweddiad Strategol	?	?
Gwerth am Arian	✓	x
Pa mor debygol yw o gael ei gyflawni	X	✓
Y gallu a'r capasiti i gyflenwi	X	✓
Fforddiadwyedd	X	✓
<b>Crynodeb</b>	Diystyru	Ffafrio

### 3.7.2 Casgliad cyffredinol: opsiynau gweithredu

Ceir crynodeb o'r asesiad ar gyfer pob opsiwn yn erbyn yr amcanion buddsoddi a'r ffactorau llwyddiant allweddol yn y tabl uchod. Er y bydd yr opsiwn "newid popeth ar yr un pryd" yn cyflawni newid sylweddol yn rhanbarth Sir y Fflint dros gyfnod byrrach o amser, fel gydag unrhyw raglen o newid mawr, a ddisgrifir yn yr Achos Amlinellol Strategol hwn, mae risgiau cynhenid yn gysylltiedig â chamau gweithredu mwy. Mae'r naill dull a'r llall yn bodloni pob un o'r amcanion buddsoddi ond un, ond mae'r dull cam wrth gam hefyd yn bodloni'r rhan fwyaf o'r ffactorau llwyddiant allweddol, a'r unig beth nad yw'n hysbys ar hyn o bryd yw pa mor fforddiadwy ydyw. Buddion penodol dull cam wrth gam yn hytrach na dull newid popeth ar yr un pryd yw argaeledd y gallu a'r capasiti i gyflenwi, ynghyd â gofynion haws eu rheoli yng nghyswllt adnoddau.

### 3.8 Opsiynau cyllido

Mae'r Cyngor Sir yn cyflwyno ceisiadau i gael arian drwy Gyllid Trawsnewid ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae manylion llawn y cyfuniad cyllid dichonol eto i'w trafod yn llawn ond defnyddiwyd amcangyfrifon blaenorol ynghylch cyllid cyfalaf i ddarparu trosolwg o'r angen posibl. Yn ogystal â'r cyllid sydd ei angen ar gyfer gwariant cyfalaf ar y stad, bydd hefyd angen cyllid i reoli'r canlyniadau a'r newid. Defnyddir cyfuniad o gyllid Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, benthyciadau darbodus seiliedig ar arbedion refeniw a derbyniadau cyfalaf.

Bydd y Cyngor Sir yn cyfrannu naill ai ar ffurf adnoddau neu drwy wireddu buddion o stadau presennol. Fel y crybwyllwyd uchod, mae manylion llawn y cyfuniad cyllid dichonol eto i'w trafod. Hyd yma clustnodwyd nifer o ffynonellau cyllido cyhoeddus. Yn eu plith mae:

- cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol;
- gwerthu asedau;

- cyfraniadau gan ddarparwyr dysgu (naill ai ar ffurf adnoddau, cyllid sydd ar gael neu drwy wireddu buddion eu stad bresennol);
- benthycia darbodus;
- defnyddio ffrydiau ariannu trydydd parti (e.e. Y Gronfa Loteri Fawr); a
- ffrydiau ariannu LICC.

Ar sail yr wybodaeth uchod, defnyddio cyllid cyhoeddus yw'r dewis a ffafrir ar gyfer y prosiect hwn ac felly ni chynhaliwyd gwerthusiad llawn yn erbyn cyllid sector preifat.

### 3.9 Y rhestr hir: pethau sydd wedi'u cynnwys a phethau sydd heb eu cynnwys

Gwerthuswyd amrywiaeth eang o opsiynau posibl yn y rhestr hir.

**Tabl 3-5: Opsiynau - y rhestr hir**

Opsiw	Canfyddiadau
<b>1.0 Cwmpas</b>	
1: Y Gogledd – gwneud dim/gwneud y lleiaf posibl)	Posibl oherwydd nad oes gan yr awdurdod opsiwn "gwneud dim". Nid yw hwn yn ddim mwy na'r newid sydd eisoes yn mynd rhagddo.
2: Y Gogledd – Crynhoi'r ddarpariaeth ôl-16 yng Nghei Connah, gyda pheth ad-drefnu	Ffaffrio oherwydd bod yr opsiwn hwn yn cyflawni dau o'r pedwar amcan buddsoddi a phob un o'r FFLIA
3: Y Gogledd – Rhannu'r ddarpariaeth ar sail GDd/GO	Wedi'i ddiystyru gan nad yw hwn ond yn cyflawni un Amcan Buddsoddi, ac nid yw'n bodloni unrhyw un o'r FFLIA. Mae'r ddau opsiwn arall yn yr ardal yn cynnig mwy o safbwynt newid
4: Y Gogledd – ail-gategoreiddio ysgolion fel darparwyr 11-16 a chael un darparwr ôl-16	Posibl gan mai hwn yw'r opsiwn "at raid" pe na bai'r opsiwn mwyaf yn ymarferol
5: Y De – Gwneud dim/gwneud y lleiaf posibl	Wedi'i ddiystyru gan y cytunwyd ar y trefniadau interim ond cydnabyddir bod angen newid y rhain yn y tymor canolig
6: Y De – Cydweithio a chael gwared â lleoedd gwag	Dyma'r model a ffafrir yn y de gan ei fod yn adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen. Mae'r

	opsiwn yn bodloni'r holl Amcanion Buddsoddi ac yn bodloni tri o'r Ffactorau Llwyddiant Allweddol.
7. Cyfrwng Cymraeg – Gwneud dim	Wedi'i ddiystyru gan nad yw'r opsiwn yn gynaliadwy
8. Cyfrwng Cymraeg – dull gweithredu rhanbarthol ac is-ranbarthol	Yr opsiwn a ffafrir oherwydd ei fod yn hwyluso datblygu'r ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn unol â strategaethau a mentrau rhanbarthol ac is-ranbarthol
<b>2.0. Atebion gwasanaeth</b>	
Adnewyddu'r ysgolion ar y safleoedd presennol	Wedi'i ddiystyru gan nad yw'r opsiwn hwn yn cyflawni'r amcanion buddsoddi a'r ffactorau llwyddiant allweddol
Ad-drefnu ysgolion – opsiynau gwahanol ar gyfer pob ardal ddaearyddol	Ffafrio gan fod hyn yn golygu bod modd defnyddio dull gweithredu gwahanol ym mhob ardal ddaearyddol
<b>3.0 Cyflenwi gwasanaethau</b>	
Mewnol	Opsiwn posibl gan fod y darparwyr yn cydweithio'n agos â'i gilydd ar hyn o bryd
Darparu gan gyrff allanol	Opsiwn wedi'i ddiystyru heb ei werthuso
Partneriaeth strategol	Opsiwn posibl ar ffurf Cyngor Sir y Fflint
<b>4.0. Gweithredu</b>	
Newid popeth ar yr un pryd	Wedi'i ddiystyru oherwydd cymhlethdod y newidiadau a diffyg tir ar gael i godi adeiladau newydd.
Cam wrth Gam	Ffafrio oherwydd llai o alw ar adnoddau ac amser ychwanegol wedi'i ganiatáu ar gyfer sicrhau'r tir angenrheidiol
<b>5.0 Cyllido</b>	
5.1 Cyllid Preifat	Opsiwn wedi'i ddiystyru heb ei werthuso
Cyllid Cyhoeddus	Ffafrio – Cyllid gan LICC/APADGOS wedi'i ategu â chyllid cyfatebol gan yr awdurdod lleol ar ffurf cyfalaf, benthycu darbodus a gwireddu asedau.

### 3.10 Opsiynau - rhestr fer

#### 3.10.1 Trosolwg

Mae'r opsiynau a nodwyd fel rhai 'posibl' neu sydd wedi'u 'ffafrio' yn Nhabl 3-5 uchod wedi cael eu trosglwyddo i'r rhestr fer er mwyn eu gwerthuso a'u harfarnu yn fwy manwl. Mae'r holl opsiynau a ddiystyrwyd fel rhai anymarferol wedi'u heithrio ar y cam hwn. Yn y tabl isod asesir yr opsiynau yn nhermau costau refeniw a chyfalaf cysylltiedig. Defnyddiwyd y tybiaethau canlynol wrth gyfrifo'r rhain:

- y caiff y prosiect ei ariannu'n llawn;
- bod y cyllid yn dod o gyfuniad o ffynonellau gwahanol; a

- bod cyllid wrth gefn wedi'i gynnwys yn y costau.

Rhestrir costau refeniw a chyfalaf pob un o'r pedwar opsiwn isod. Mae tuedd optimistaidd o 24% wedi'i gynnwys yn y costau cyfalaf yng nghyswllt opsiynau 2, 4, 6.

**Tabl 3-6: Yr opsiynau - canlyniadau refeniw a chyfalaf**

	Opsiw 1 – gwneud y lleiaf posibl	Opsiw 2 - Canolig	Opsiw 4 - Canolig	Opsiw 6 - Canolig
<b>Costau Cyfalaf</b>	£72m	£60m	£60m	£82m
<b>Costau Refeniw</b>	£744K	£600K	£400K	£1,011K

Mae Opsiynau 2 a 4 yn golygu y bydd yn rhaid cael arian i godi adeiladau newydd yng Nghei Connah - £8m. Mae'r costau cyfalaf yn cynnwys costau ailwampio'r safle i safon 'addas i'r pwrpas' ym mhob achos.

Gwnaed y tybiaethau canlynol wrth bennu'r gostyngiad yng nghyswllt costau refeniw.

**Tabl 3-7: Tybiaethau o ran arbedion cost refeniw**

Opsiw	Tybiaethau
Opsiw 1	Bod yr ailwampio yn dileu unrhyw angen am waith atgyweirio neu gynnal a chadw – llai o gostau o ran glanhau ac ynni hefyd.
Opsiw 2	Bod yr ailwampio yn dileu unrhyw angen am waith atgyweirio neu gynnal a chadw – gostyngiadau yng nghyswllt glanhau, ynni ac arwynebedd llawr. Llai o leoedd gwag.
Opsiw 4	Bod yr ailwampio yn dileu unrhyw angen am waith atgyweirio neu gynnal a chadw – gostyngiadau yng nghyswllt glanhau, ynni ac arwynebedd llawr. Llai o leoedd gwag a llai o gapasiti.
Opsiw 6	Wrth gadw'r capasiti presennol, gostyngiad mewn costau refeniw ar wahân i'r arbedion sydd ynghlwm â'r ailwampio.

Ar sail y dadansoddiad hwn, dyma'r rhestr fer a argymhellir ar gyfer gwerthusiad pellach yn yr Achos Busnes Amlinellol:

- Opsiwn 1 Gwneud y lleiaf posibl – dim ond ailwampio'r ysgolion
- Opsiwn 2 Crynhoi'r ddarpariaeth yng Nghei Connah
- Opsiwn 4 Mabwysiadu model trydyddol.
- Opsiwn 6 Opsiwn 6 - Cydweithio rhwng Castell Alun a Phenarlâg, ac Ysgol Alun, Yr Wyddgrug, Ysgol Uwchradd Elfed ac Ysgol Uwchradd Argoed ynghyd â chael gwared â lleoedd gwag.



## 4.0 Yr Achos Masnachol

### 4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r achos masnachol arfaethedig dros yr opsiwn a ffafir fel y'i hamlinellir yn yr achos Economaidd.

### 4.2 Gwasanaethau – y gofynion

Mae'r union ofynion o safbwynt y gwasanaeth i'w gwerthuso yn yr Achos Busnes Amlinellol.

### 4.3 Y posibilrwydd o drosglwyddo risg

Yn yr adran hon ceir asesiad cychwynnol o sut y gellid rhannu'r risgiau cysylltiedig rhwng y sector cyhoeddus (Cyngor Sir y Fflint) a'r sector preifat (y contractwr a gaiff ei enwebu ar gyfer y gwaith adeiladu cysylltiedig), ac, mewn rhai achosion, rhwng y ddau sefydliad a enwebwyd.

Yr egwyddor gyffredinol yw sicrhau bod risgiau yn cael eu pasio i'r 'corff sy'n gallu ymdrin â nhw orau', yn amodol ar werth am arian. Yn y tabl isod, nodir y drefn ddichonol ar gyfer dyrannu risg; caiff hyn ei werthuso a'i adolygu ar y cam Achos Busnes Amlinellol er mwyn gwneud yn siŵr bod risgiau'n cael eu dyrannu'n briodol.

Tabl 4-1: Dyrannu Risg

Categori Risg	Dyraniad posibl		
	Cyhoeddus	Preifat	Rhannu
Risg dylunio		✓	
Risg datblygu ac adeiladu		✓	
Risg gweithredu a phontio			✓
Risg perfformiad ac argaeledd		✓	
Risg gweithredu	✓		
Risgiau o safbwynt amrywioldeb refeniw	✓		
Risgiau terfynu		✓	
Risgiau o safbwynt technoleg a darfodiad	✓		
Risgiau rheoli	✓		
Risgiau o ran gwerth gweddilliol	✓		
Risgiau ariannu	✓		
Risgiau deddfwriaethol			✓
Risgiau prosiect eraill			✓

#### **4.4 Dulliau codi tâl arfaethedig**

Mae'r dulliau codi tâl arfaethedig eto i'w penderfynu a chânt eu hadolygu yn hwyrach ymlaen yn y broses achos busnes.

#### **4.5 Hyd y contractau**

Mae hyd y contractau eto i'w penderfynu a chânt eu hadolygu yn hwyrach ymlaen yn y broses achos busnes.

#### **4.6 Cymalau contractol allweddol arfaethedig**

Mae'r math o contract, gan gynnwys y cymalau perthnasol, eto i'w benderfynu a chaiff ei adolygu ar y cam Achos Busnes Amlinellol.

#### **4.7 Goblygiadau o ran personél (gan gynnwys TUPE)**

Yn sgil y mentrau hyn bydd unrhyw faterion yn ymwneud â staffio a phersonél yn rhwym i bolisiau a gweithdrefnau sefydledig yr Awdurdod Lleol.

#### **4.8 Strategaeth gaffael ac amserlen gweithredu**

Mae'r strategaeth gaffael a ddefnyddir gan Gyngor Sir y Fflint yn tendro am wasanaethau drwy'r broses OJEU. Nid oes unrhyw fframweithiau wedi'u sefydlu ar gyfer caffael gwasanaethau ymgynghori allanol ond mae Sir y Fflint yn credu mewn dull partneriaeth lle mae darparwyr allanol yn mabwysiadu cyfres contractau NEC3 lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r awdurdod wedi cael cyllid i ymchwilio i gaffael gwasanaethau allanol ar gyfer ysgolion yn y rhanbarth; mae hyn yn debygol o arwain at lunio fframweithiau ar gyfer darparu gwasanaethau cyflenwi ac ymgynghori allanol yng nghyswllt ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac ysgolion trawsnewid. Bydd y dull hwn hefyd yn ailgylchu'r buddsoddiad yn yr economi leol.

Mae'r amserlen ar gyfer gweithredu'r prosiect eto i'w phennu a bydd hon, ynghyd â diweddariad ar y fframweithiau, yn cael ei llunio yn ystod y cam Achos Busnes Amlinellol.

#### **4.9 Dull cyfrifyddu FRS 5**

Bydd y dull cyfrifyddu a ddefnyddir ar gyfer unrhyw asedau yn dibynnu ar berchnogaeth yr ased. Gan fod y gofynion o safbwynt buddsoddi eto i'w penderfynu, caiff y dull cyfrifyddu ei ddatblygu ar y cam Achos Busnes Amlinellol.

## 5.0 Yr Achos Ariannol

### 5.1 Cyflwyniad

Pwrpas yr adran hon yw nodi goblygiadau ariannol dangosol yr opsiwn a ffafrir (fel y nodwyd yn yr adran ynglŷn â'r achos economaidd) a'r fargen a gynigiwyd (fel y'i disgrifir yn yr adran ynglŷn â'r achos masnachol).

### 5.2 Fforddiadwyedd cyffredinol

Yn ogystal â'r cyllid sydd wedi'i gynnwys yn yr Achos Amlinellol Strategol hwn, mae'r Awdurdod yn paratoi cais am gyllid ar gyfer buddsoddi cyfalaf drwy'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng yr Awdurdod a LICC a disgwylir y daw'r cyllid cyfalaf o grantiau LICC, derbyniadau cyfalaf a chyllid mewnol y cyngor.

- Mae'r symiau sydd wedi'u cynnwys yn yr opsiynau ar y rhestr fer yn amrywio o £60m i £81m (gan gynnwys tuedd optimistaidd o 24%).

### 5.3 Effaith ar Gyfrif Gwariant ac Incwm y Sefydliad

Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyfrif Incwm a Gwariant ar y cam hwn gan y bydd yr opsiynau a ddisgrifir yn cael eu cyllido 100%.

### 5.4 Effaith ar y fantolen

Gan fod yr union ofynion o safbwynt y newid eto i'w pennu'n derfynol, bydd unrhyw newid posibl mewn asedau yn cael ei lunio yn fwy manwl ar y cam Achos Busnes Amlinellol.

### 5.5 Cefnogaeth gan Randeiliaid

Profwyd yr opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn y ffordd a ffafrir ar gyfer symud ymlaen gan amrywiaeth eang o randdeiliaid oedd yn cynnwys arweinwyr y coleg a'r ysgolion. Mae'r opsiynau hefyd wedi cael eu rhoi gerbron Bwrdd y Rhaglen Ôl-16, Aelodau Etholedig o Gyngor Sir y Fflint a'r Pwyllgor Gwaith. Mae cefnogaeth unfrydol i'r ffordd a ffafrir ar gyfer symud ymlaen.



## 6.0 Yr Achos Rheoli

### 6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn trin a thrafod pa mor debygol yw'r cynllun o gael ei gyflawni. Ei bwrpas yw nodi'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod y cynigion yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus, yn unol ag arferion gorau.

### 6.2 Trefniadau ar gyfer rheoli'r rhaglen

Lluniwyd y cynigion yn yr Achos Amlinellol Strategol hwn gan dîm prosiect bychan ar y cyd â Bwrdd Rhaglen Ôl-16 Sir y Fflint. Cydnabyddir bod ymgynghoriad eang wedi bod ynghylch y cynigion hyd yma; proses a ddechreuodd ym mis Ebrill 2010, cyn drafftio'r Achos Amlinellol Strategol. Mae Bwrdd y Rhaglen wedi defnyddio digwyddiadau ymgynghori i drafod elfennau o'r Achos Amlinellol Strategol ac i brofi'r opsiynau sy'n cael eu trafod yn yr Achos Economaidd.

Mewn sawl awdurdod yng Nghymru, mae Bwrdd Partneriaeth Ddysgu 14-19 yn gyfrifol am lunio cynigion mewn ymateb i'r Agenda Trawsnewid. Yn Sir y Fflint, cyflawnir y swyddogaeth hon gan Fwrdd y Rhaglen Ôl-16 ac mae Bwrdd Partneriaeth Ddysgu 14-19 Sir y Fflint yn canolbwyntio ar faterion gweithredol addysg 14-19.

Sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen Ôl-16 i gryfhau cyfranogiad a gwella canlyniadau ym maes addysg, hyfforddiant a dysgu er mwyn sicrhau y darperir addysg gadarn o safon uchel ar draws Sir y Fflint. Ei swyddogaeth yw cytuno ar y weledigaeth leol o safbwynt y ddarpariaeth addysgol gan roi blaenoriaeth i lunio opsiynau cadarn ar gyfer darpariaeth ôl-16 (fel y nodir yn yr Achos Amlinellol Strategol) a chyfleu'r weledigaeth honno.

Mae cyfansoddiad Bwrdd y Rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr o blith amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae hyn yn dangos maint yr ymgysylltu, y consensws a'r ymgynghori sydd wedi cael ei drafod wrth lunio'r Achos Amlinellol Strategol a'r opsiynau o safbwynt trawsnewid y ddarpariaeth ôl-16. Daw'r cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Cyngor Sir y Fflint
- Coleg Glannau Dyfrdwy
- Cynrychiolwyr Penaethiaid
- Gyrfa Cymru
- Cymdeithas Llywodraethwyr Sir y Fflint
- Darparwyr Addysg Uwch
- APADGOS

Mae'r bwrdd wedi llunio a chymeradwyo cylch gwaith manwl. Mae prif dasgau'r cylch gwaith i'w gweld isod:

1. Asesu'r angen a rhoi cyngor ynghylch cydlynu a chynllunio strategol ym maes darpariaeth ôl-14, gan sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn cael yr un cyfle o ran manteisio ar hyfforddiant ac addysg briodol sy'n cynnig cyfleoedd i wneud cynnydd tuag at ganlyniadau cadarnhaol.
2. Asesu effaith trefniadau cyllido cenedlaethol yng nghyswllt darpariaeth ôl-16 ar Sir y Fflint a rhoi cyngor ar gydlynu trefniadau cyllido lleol er mwyn cefnogi'r egwyddor o gydraddoldeb mynediad.
3. Sicrhau y gall pob unigolyn ifanc gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad llawn a diduedd sy'n ei alluogi i wneud penderfyniadau doeth ac i fanteisio ar gyfleoedd ôl-16 priodol.
4. Monitro, gwerthuso a cheisio dylanwadu ar gyfleoedd hyfforddiant ac addysg ôl-14 a'u gwella drwy ei is-grwpiau gweithredol, y Rhwydwaith 14-19 Lleol a Gweithgorau Ardal Ddaearyddol.
5. Comisiynu gwaith, fel sy'n briodol, a fydd yn datblygu agweddau ar hyfforddiant ac addysg ôl-16, gan gynnwys ymgysylltiad cyflogwyr a phrofiad gwaith, a sefydlu is-grwpiau ychwanegol fel sy'n briodol mewn ymateb i angen dynodedig.
6. Gweithredu fel is-grŵp Ôl-14 Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint, gan roi diweddariadau amserol ar waith y grŵp a darparu adroddiadau eithriadol ar faterion sydd i'w rhoi gerbron y bartneriaeth er ei sylw.
7. Hwyluso cysylltiad effeithiol rhwng y Bartneriaeth Strategol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, yr Awdurdod Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gyrfa Cymru, cyflogwyr a darparwyr.
8. Cael neu gomisiynu gwybodaeth yn ôl y galw sy'n hysbysu'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r angen i ddatblygu'r ddarpariaeth Ôl-16 ar gyfer dysgwyr yn Sir y Fflint.
9. Bod yn gyfrifol am ledaenu gwybodaeth am ddatblygiadau sy'n berthnasol i bobl ifanc 14-19 oed i randdeiliaid allweddol, gan gynnwys y rhai maent yn eu cynrychioli.
10. Ymateb yn ôl yr angen i faterion cysylltiedig ag arolygu ac atebolrwydd allanol ac ymateb i anghenion Datblygu Gwasanaeth.
11. Hybu'r agenda 14-19 ymysg holl ddarparwyr dysgu Sir y Fflint a gweithio strategol rhwng partneriaid.
12. Adrodd ar gynnydd yn y meysydd uchod i'r Cyngor Sir, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Mae aelodaeth Bwrdd y Rhaglen i'w gweld yn y tabl isod:

Tabl 6-1: Aelodau Bwrdd y Rhaglen Ôl-16

Enw	Swyddogaeth / Cynrychiolaeth
Ian Budd	Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Tom Davies	Pennaeth Datblygu ac Adnoddau
Kevin Grandfield	Swyddog y Cyfnod Uwchradd
David Jones	Pennaeth - Coleg Glannau Dyfrdwy
Rosemary Jones	Pennaeth, Ysgol Uwchradd Elfed
Simeon Molloy	Pennaeth, Argoed
Azi Rashud	Pennaeth, Ysgol Uwchradd John Summers
Joyce McCaw	Gyrfa Cymru
Dr Alun Howells	Prifysgol Glyndŵr
Terry O'Marah	Cymdeithas Llywodraethwyr Sir y Fflint
Claire Maxwell	APADGOS

### 6.3 Trefniadau ar gyfer rheoli'r prosiect

Bydd y rhaglen waith yn cael ei rheoli yn unol â PRINCE2 lle bo hynny'n berthnasol. Disgwylir i Fwrdd y Rhaglen Ôl-16 sefydlu Grwpiau Gorchwyl ar wahân sydd â chylch gwaith penodedig yn ôl y galw er mwyn llunio adroddiadau ac argymhellion ar faterion penodol.

#### 6.3.1 Strwythur ar gyfer adrodd ar y prosiect

Dyma'r trefniadau adrodd:

- Tîm Ôl-16 Sir y Fflint yn adrodd i Fwrdd y Rhaglen Ôl-16 drwy Tom Davies (Arweinydd y Prosiect)
- Bwrdd Rhaglen Ôl-16 Sir y Fflint i adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol drwy Ian Budd
- Y Tîm Rheoli Corfforaethol yn adrodd i'r Pwyllgor Gwaith drwy Ian Budd

#### 6.3.2 Swyddogaethau a chyfrifoldebau'r prosiect

Ian Budd yw Noddwr enwebedig y Prosiect a'r Defnyddiwr Uwch yng nghyswllt y cynigion a nodir yn yr Achos Amlinellol Strategol hwn. Mae aelodau eraill tîm y prosiect wedi'u henwi isod.

- Tom Davies - Pennaeth Datblygu ac Adnoddau (Swyddog Gweithredol y Prosiect)
- Kevin Grandfield - Swyddog y Cyfnod Uwchradd

### 6.3.3 Cynllun y prosiect

Mae'r tîm wedi llunio cynllun ar gyfer y prosiect ac mae'r tabl isod yn dangos y prif gerrig milltir yng nghyswllt rhoi'r achos busnes ar waith cyn ac ar ôl cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol hwn.

**Tabl 6-2: Gweithgareddau carreg filltir**

Gweithgaredd	Dyddiad
Cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol i Fwrdd y Rhaglen Ôl-16	Gorffennaf 2010
Seminar Prawfesur Darparwyr	Gorffennaf 2010
Gwybodaeth i'r Cyngor Sir	Gorffennaf 2010
Cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith	Gorffennaf 2010
Cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cynulliad Cymru	Gorffennaf 2010
Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol	Awst / Medi 2010
Dechrau Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	Awst / Medi 2010
Cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cynulliad Cymru	Tachwedd 2010

### 6.4 Defnyddio cyngorwyr arbennig

Mae digon o gapasiti yng Nghyngor Sir y Fflint i reoli'r prosiect ar hyn o bryd . Ceir enghreifftiau o'r awdurdod yn defnyddio capasiti rheoli sgiliau technegol dros ben drwy roi cymorth i awdurdodau cyfagos dan raglen gydweithredol Gogledd Cymru yng nghyswllt Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio capasiti newid addysg i dreialu agweddau ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion cenedlaethol newydd ac i lunio dulliau newydd o wella ysgolion.

Nid oes cyngorwyr arbenigol ychwanegol i'w caffael ar gyfer y prosiect hwn ar hyn o bryd. Caiff gofynion y prosiect eu hadolygu ar ôl cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol.

# **Atodiadau**

**Atodiad A - Strategaeth Buddsoddi mewn Ysgolion**

**Atodiad B - Strategaeth 3 Blynedd Llwybrau Dysgu 14-19**

**Atodiad C – Gwerthuso Opsiynau - Sgorio**

## **Atodiad A - Strategaeth Buddsoddi mewn Ysgolion**

## **Atodiad B - Strategaeth 3 Blynedd Llwybrau Dysgu 14-19**

## **Atodiad C – Gwerthuso Opsiynau - Sgorio**